

ECO'R WYDDFA


Rhif 155

CHWEFROR 1990

Pris 20c

GALW CREFFTWR AC ARTISTIAID

Mewn cydweithrediad â Chymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru mae Pwyllgor Celf a Chrefft, Eisteddfod Yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon, Mai 1990 yn chwilio am artist neu grefftwr/wraig i weithio yn yr ardal am bythefnos dros gyfnod yr Eisteddfod.



PARC GLYNLLIFON A LLENYDDIAETH PLANT

Mae dyfodiad Eisteddfod yr Urdd i Barc Glynllifon, gerllaw Caernarfon, fel petai'n ategu yr hyn sy'n digwydd yno eisoes, gan fod llenyddiaeth plant y gyntaf o ddeuddeg thema lenyddol i gael eu dathlu'n weledol ar dir y Parc. Eisoes mae yno BANT Y GAIR, amffitheatr fechan sy'n ddathliad o'r stori lafar, a'r MYNYDD BACH sy'n fan chwarae ac yn fynedfa i'r BYD ARALL. Yn fuan gobeithir ychwanegu atynt y GORLAN a DRWS DYCHYMYG. Mae'r gweithiau celf hyn yn creu fframwaith gyffredinol i'r safle ac erbyn hyn mae'r Pwyllgor Llywio, dan adain Cyngor Sir Gwynedd, yn barod i ychwanegu haen arall o weithiau i ddathlu bywyd a gwaith llenorion unigol.

O. M. EDWARDS YR ARLOESWR

Gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Glynllifon ddiwedd Mai, mae'n briodol iawn mai tad sylfaenydd y mudiad hwnnw, Syr O. M. Edwards, fydd y llenor unigol cyntaf i gael ei gynnwys yno. Bu cyfraniad O. M. Edwards i lenyddiaeth plant Cymru yn anfesuradwy. Arloesodd y maes gyda llyfrau a chylchgronau deniadol ei hun a thrwy ei ysbrydoliaeth i eraill. Noddodd arlunwyr Cymreig i ddarlunio ei gynnyrch a pharhawyd y traddodiad hwn gan ei fab, Syr Ifan ab Owen Edwards.

Syr O. M. Edwards wrth gerdded un o fynyddoedd Cymru gafodd y weledigaeth o'r Gymru newydd y dymunai ei gweld pan ddigwyddodd sylwi ar

PENNAETH NEWYDD YSGOL BRYNREFAIL



Mr John Grisdale, pennaeth Ysgol Uwchradd Brynrefail.
Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd.

glwstwr o blu'r gweunydd a'u gwynder yn goleuo tlogi'r llechwedd. Dyma iddo ef ddarlun o'r gobaith newydd i blant Cymru, a'r plu hyn fydd yn ffurfio cofeb iddo yng Nglynllifon.

YR IFANC I DDATHLU

Bydd cyfle i'r plant yn Eisteddfod yr Urdd eleni bob un greu ei bluen ei hun allan o ddefnyddiau amrywiol, a'u plannu yn y llannerch yng nghoedlan Llenyddiaeth Plant a neilltuwyd i O. M. Edwards. Bydd gweithdai ar gyfer y plant dan ofal artist/crefftwr yn y Pafiliwn Celf a Chrefft ar faes yr Eisteddfod ac ni ellir dychmygu cofeb y byddai O. M. Edwards ei hun yn fwy balch ohoni nag un a luniwyd gan blant Cymru ar ei gyfer.

SUT ARTIST NEU GREFTWR?

Mae'r Pwyllgor lleol yn chwilio am artist/crefftwr/wraig fyddai'n abl i ysbrydoli plant a phobl ifanc

i fynegi eu hunain trwy gyfrwng ystod eang o ddefnyddiau, megis coed, plastig, papur, ffabrig, ac ati. Gallai'r artist/crefftwr fod wedi arbenigo mewn un cyfrwng ond fod ei ddulliau o weithio a'i agwedd yn ddigon agored iddo allu troi ei law at amrywiaeth o gyfryngau.

Gan fod cydweithio â'r ifanc yn ganolog i'r cynllun byddwn yn chwilio am gyfathrebwr naturiol gyda phrofiad cymharol ddiweddar o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

YR ARTIST A'R PLANT A'R PLU

Y nod yw cael plant a phobl ifanc yr Eisteddfod i drin defnyddiau yn ddeheuig a chelfydd ac i greu PLU'R GWEUNYDD o'r amrywiol ddefnyddiau a'u plannu yng nghoedlan Llenyddiaeth Plant y Parc.

Byddai'r artist/crefftwr yn treulio wythnos (21-25 Mai 1990) yn cynnal gweithdai yn (Parhad ar dudalen 19)

RHYNGDDOCH CHI A'CH PRÊS MEDDAI

Ydach chi wedi troi'r pŵls erioed? Yda chi wedi mentro rhoi pres ar y ji-jis? Neu ar rasmus cŵn? Neuthoch chi golli? Neuthoch chi ennill? Neuthoch chi ennill digon i'ch cadw chi'n gyfforddus am weddill y'ch oes? Naddo?

Yda chi wedi troi'ch lwc ar y sdocs a'r shêrs? Neuthoch chi ddilyn Syd, a phrynu shârs yn Brishit Gas? A'u gwerthu nhw wedyn am broffut? Wel, rhyngoch chi a'ch prês, ddeuda i.

Ciwdad ron i fod rhai o syportars Glyn Rhonwy yn meddwl prynu shârs Liding Leshyr. (Liding Leshyr sy'n mynd i redag Cyngor Arf ... sori; mynd i redag Glyn Rhonwy ar ôl cal planning gin Pityr Wocyr). Wel, rhag ofn i chi wario'ch prês yn rhy fuan, ma gin Draenog niws i chi.

Lwcus i rywun luchio hen fag chips o dan y gwrych lle bydda'i yn cysgu. Roedd y chips wedi'i lapio mewn copi o 'Penny Share Focus'

- magasin yn deud wrth bobl sut i wario'u prês ar y sdocs a shêrs. Sôn roedd o am Liding Leshyr: well i mi sgwennu yn union be ddeudo nhw, rhag ofn i chi gam-ddallt.

'... their level of debt started causing alarm. ... it's hard to see where their future growth is going to come from. We would suggest that the company has run out of puff.'

Dylad ydi debt ynte? Ond dim ond syjestio'u bod nhw'n rhedag allan o wynt ma'r magasin. Ella'i bod nhw'n rong. Ond ella'i bod nhw'n iawn hefyd. Fel deudis i; rhyngoch chi a'ch prês ynte?

O ia, un peth bach arall. Cownsilyrs Arfon sy isho Liding Leshyr yn Glyn Rhonwy ynte? Dydi Cownsils Llanbêr, Llanrug a Llan'iolan ddim o'u hisio nhw, nacdi? Yda chi'n meddwl i' bod hi'n ffêr i Gownsilyrs Arfon gamblo efo prês y rêr-peiers ar gwmni sy'n rhedag allan o wynt?

Fel deudis i gynna: dylad ydi debt ynte?

ECO'R WYDDFA

RHIF 155
CHWEFROR 1990

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwynhaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwynhaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir (871043)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 1

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

CHWEFROR 20

os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

DEDDF IAITH GYFLAWN YW'R UNIG ATEB

Annwyl Gyfaill,

Ysgrifennaf atoch ran ran
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fel
rhan o'r ymgyrch dros DDEDDF
IAITH NEWYDD GYFLAWN.

Yn ddiweddar cyhoeddodd
Bwrdd yr Iaith Gymraeg ddrafft o
fesur iaith i'w gyflwyno i'r
Ysgrifennydd Gwladol yn seiliedig
ar yr egwyddor o ddilysrwydd
cyfartal, ac er i rai unigolion derbyn
y drafft mesur fel cam ymlaen, ein
cred fel cymdeithas yw nad yw'r
mesur yn camu ymlaen o gwbl ond
yn hytrach yn cyfiawnhau'r drefn
bresennol. Ers blynyddoedd bellach
bu'r Gymraeg ar gael yn unig os
gofynnir amdani ac nid yw'r mesur
iaith arfaethedig yn newid hynny,
brithir y mesur gan y termau
ymarferol a rhesymol, ac nid oes
dim sicrwydd y daw
dwyieithrwydd yn naturiol drwy
ein cymunedau.

Pwrrpas yr hyn yr ymgyrchwn
drosto - sef DEDDF
GYNHWYSFAWR - yw sicrhau
hawl ein cymunedau i dderbyn
POB gwybodaeth, hynny yw,
taflenni, ffurflenni, arwyddion,
hysbysebion, yn gwbl ddwyieithog
a hynny heb orfod gofyn dro ar ôl
tro. Dyma ystyr yr hyn a alwn yn
ddwyieithrwydd naturiol ac nid yw
dilysrwydd cyfartal yn dod yn agos

at hyn.

Fel y gwahoddodd John Elfed
Jones, Cadeirydd y Bwrdd Iaith, yn
ddiweddar, annogwn chi hefyd i
ysgrifennu at yr Ysgrifennydd
Gwladol a'r Bwrdd Iaith ond nid i
gefnogi'r mesur ond i ddatgan
anfodlonrwydd ynghylch a'i
wendidau a datgan yn glir mai
pwrrpas deddfwriaeth yw deddfu
er mwyn y Gymraeg ac nid er
mwyn ymarferoldeb a dymuniadau
Peter Walker. Yn y Cyfamser mae
Cymdeithas yr Iaith wedi cyhoeddi
taflen yn amlinellu y gwahaniaeth
rhwng deddf y Bwrdd a'r hyn a
fyddai'n gynhwysiedig mewn
Deddf Gynhwysfawr ac os am gopi
o'r daflen, neu gynorthwyo ei
dosbarthu, neu am fwy o fanylion,
cysylltwch â : Prif Swyddfa
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Pen
Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth,
Dyfed (0970 624501).

Gyda'n gilydd gwrthodwn y
mesur gwan yma a brwydro
ymlaen tan y gwelwn DDEDDF
GYFLAWN yn sicrhau
dwyieithrwydd naturiol drwy
Gymru.

Yn gywir,

Dros Gymru,
ALUN LLWYD,
(Is-Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith
Gymraeg)

DEFODAU CYMRU A LESWTW

Annwyl Syr,

Diddorais yn sylwadau Siwan
Rudkin ar argraffiadau Nan Wyn, ar
ôl iddi ymweld â Leswtw - efaill ein
gwlad ni.

Roedd Siwan, ddyliwn, wedi
gwaredu fod dynion Leswtw yn
curo'i gwragedd, ac yn ymhel â
chymaint o ferched eraill ag yr
oedd modd.

Mae'n amlwg na fuo nhw fawr
o dro yn mabwysiadu ein defodau.

Yn gywir,

JOHN E. WILLIAMS,
Allt Riwth,
Llanrug,
Gwynedd.

CYMDEITHAS ADDYSG AMGYLCHFYD GWYNEDD

Nos Fawrth, Chwefror 6 ym Mhlas
Tanybwllch, cynhelir noson
gymdeithasol ar y cyd â
Chymdeithas Edward Llwyd.
Testun y noson fydd 'Peg i hongian
Stori'.

Dechreuir am 7 o'r gloch. Pris
mynediad £1 (ac am ddim i
aelodau'r Gymdeithas).

Am ragor o fanylion cysylltwch
â Geraint George (Ysg), Plas
Tanybwllch, Maentwrog (Ffôn:
Maentwrog 324).

CHWILIO AM 'BENNAU BACH'

Annwyl Olygydd,

Mi fydd Radio Cymru yn dechrau
recordio cyfres newydd o'r cwis i
unigolion 'Pennau Bach', ym mis
Mawrth. Rydym ni'n awyddus i
ddenu cystadleuwyr o bob cwr o
Gymru, ac mi fuaswn yn
ddiolchgar pe gallech gyhoeddi,
trwy gyfrwng eich papur bro, bod
croeso i unrhyw un sydd am
gystadlu gysylltu â ni erbyn
diwedd mis Chwefror. Y cyfeiriad
i'r sawl sy' â diddordeb yw: Lun-
ed Whelan, Pennau Bach, BBC
Radio Cymru, 32 Heol Alexandra,
Abertawe. SA1 5DT, a'r rhif ffôn
yw (0792) 468832.

Diolch yn fawr.

Yr eiddoch yn gywir,

LUNED WHELAN
(Ymchwilydd 'Pennau Bach').



SGANDAL ARIANNOL LEADING LEISURE

Annwyl Olygydd,

O gofio yr hyn sydd wedi ei adrodd
yn ddiweddar yn y wasg leol am
sefyllfa ariannol Leading Leisure, y
cwmni sydd yn bwriadu datblygu
safle Glyn Rhonwy, mae'n anodd
gweld sut y gall Cyngor Dosbarth
Arfon beidio a chynnal archwiliad
llawn a buan i'r sefyllfa, neu ollwng
y syniad o ddatblygu Glyn Rhonwy
yn gyfangwbl. Os oes achos i
weithredu naill ffordd neu llall, yna
mae synnwyr cyffredin yn dweud
mai dyma'r amser. Os na wneir
hynny, yna dim ond teg wedyn yw
cyhuddo y Cyngor o roi
buddiannau y cwmni yma
uwchlaw rhai o eiddo y gymuned
leol.

Mae'r wybodaeth diweddaraf
yma yn sgandal o'r mwyaf ac yn
dangos mai gweithred cwbl
anghyfrifol fyddai i'r Cyngor ddal
ati i ymddiried dyfodol y fro hon
mewn dwylo cwmni o'r fath.
Mae'n edrych ei bod hi wedi mynd
yn nos ar y cwmni. Maent eisoes
wedi gwerthu eu hasedau gorau i
gyd a hynny am bris hynod o isel
oherwydd gymaint oedd yr angen
am gyfalaf i'w cadw mewn
busnes. Felly yr unig ddehongliad
o'r sefyllfa yw bod sicrhau
caniatad cynllunio ar gyfer
datblygu safle Glyn Rhonwy yn
hanfodol bwysig iddynt ar gyfer
cadw eu hunain mewn busnes.
Tydi nhw erioed wedi meddwl am
fuddiannau Llanberis a'r pentrefi
cyfagos. Gwneud 'fast buck' ac
yna symud ymlaen i ran arall o'r
wlad yw eu ffordd o weithredu.
Meddwl am y datblygiad mwyaf
posibl er mwyn sicrhau elw mawr
a hynny mewn cyn lleied o amser,
cyn gwerthu'r cyfan am y pris
uchaf.

Mae'n ymddangos bod
proffwydoliaeth PADARN yn dod
yn wir bob dydd. Os aiff datblygiad
Glyn Rhonwy yn ei flaen mae'n
dod yn fwy fwy amlwg mai
adeiladu y tri chant o dai fydd
uchaf ym meddwl y datblygwyr.
Dyna lle mae'r arian i'w wneud ac
yna eu gwerthu am bris allan o
gyrraedd y bobl leol. Nid codi pwll
nofio ac atyniadau hamdden tebyg
sydd yn mynd i sicrhau yr elw
mawr y mae'r cwmni yma yn
chwilio amdano iddynt eu hunain.

Dylai'r wybodaeth diweddaraf
yma am stad ariannol Leading
Leisure fod yn ddigon o rybudd i
Gyngor Arfon dynnu allan yn awr
o'u bwriad i ddatblygu safle Glyn
Rhonwy fel pentref gwyliau
anferth. Pam mynd i fwy o wariant
(a chofier mai arian ni y
trethdalwyr ydyw) i geisio
hyrwyddo ymhellach ddatblygiad
mor fawr pan mae yn ymddangos
fwy fwy bob dydd mai gambl o'r
mwyaf yw y cyfan. Mae'r ysgrifen
eisoes ar y mur. Cyngor Arfon,
rydych wedi cael eich rhybuddio. A
ydych yn gwrando?

GLYN TOMOS
(Cadeirydd PADARN)

Pen y Bwlch,

Dinorwig,

Caernarfon.

CWRS CEFNDIR Y GOGLEDD

Annwyl Olygydd,
Tybed a fyddai gan ddysgwyr profiadol yn eich ardal ddiddordeb mewn Cwrs Cefndir y Gogledd a gynhelir dros benwythnos 23-25 Mawrth 1990 yn Nant Gwrtheyrn? Neu efallai bod eich darllenwyr yn nabod dysgwyr lleol sydd am wella eu gwybodaeth o'r Gymraeg a'n diwylliant.

Fe'i trefnir gan Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion Prifysgol Cymru ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn ddigon sicr eu gfael ar yr iaith lafar ac yn awr am ehangu eu gwybodaeth am Gymru a'i diwylliant yn ogystal â datblygu eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn hytrach nag ar ddysgu'r iaith yn ffurfiol.

Tybed a allwn ofyn, drwy golofnau'r papur, i'ch darllenwyr dynnu sylw dysgwyr lleol at y cwrs hwn?

Os ydych am fwy o fanylion, cysylltwch â Geraint Wilson-Price, Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, 22 Heol y Parc, Cathays, Caerdydd, (0222) 390980.

Diolch yn fawr

Yr eiddoch yn gywir,

GERAINT WILSON-PRICE

Prifysgol Cymru,

Canolfan Dysgu Cymraeg,

22 Park Place,

Caerdydd.

MENTRWCH I FYD BUSNES

Annwyl Olygydd,
Oherwydd y trai yn niwydiannau traddodiadol Gwynedd fe symudodd llawer o'n pobl i fannau eraill i fyw a gweithio. Efallai fod llawer ohonynt yn darllen y llythyr hwn yn awr.

Mae rhai bellach mewn swyddi allweddol mewn diwydiannau a busnesau pwysig. Gofynnaf a oes modd iddynt sefydlu busnes o'r newydd yng Ngwynedd, neu ddwyn perswad ar eu cwmni presennol i sefydlu cangen yn y Sir?

Mae rhagolygon economaidd Gwynedd yn dda. Dengys llwyddiant ysgubol y diwydiant teledu beth gellir ei wneud o fentro, ac y mae gŵr o Wynedd, Dr Gwyn Jones, yn gadeirydd Awdurdod Datblygu Cymru. Pa well cyfnod i fwrw ati?

Fe allwch chi, drigolion Gwynedd, helpu'r Cyngor Sir i sbarduno diwydiant. Os oes unrhyw aelod o'ch teulu neu berson o'ch tref neu bentref mewn swydd ddylanwadol ymaith o Wynedd, rhowch ei enw a'i gyfeiriad i'r Swyddog Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Gwynedd, Caernarfon LL55 1SH (Tel: 0286 4121, est. 2055) ac fe anfonwn ninnau becyn o wybodaeth am atyniadau masnachol y Sir.

Gall y WDA, Y Cyngor Sir a'r Cyngorau Dosbarth oll wneud cyfraniad ond menter unigolion yw'r angen mwyaf ar ddiwedd y dydd. Gyda'n gilydd fe safwn yn y bwlch!

Yn gywir,

JOHN L. WILLIAMS,

(Cadeirydd Pwyllgor Polisi ac Adnoddau Cyngor Sir Gwynedd.

CYSTADLAETHAU DYSGWYR EISTEDDFOD CWM RHYMNI

Ydych chi'n cael hwyl ar dysgu Cymraeg?

Ydych chi'n mynychu dosbarth neu'n dilyn cwrs iaith drwy gyfrwng radio, teledu neu dâp?

Os felly, beth am gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni eleni? Mae amrywiaeth o gystadlaethau ar eich cyfer.

Peidiwch a phoeni'n ormodol am safon eich Cymraeg - mae cystadlaethau arbennig i bawb o bob safon, o ddysgwyr newydd sbon i'r rhai mwyaf profiadol yn eich plith.

Ymhlith y cystadlaethau llwyfan mae cystadleuaeth Adrodd neu Siarad Cyhoeddus i unigolion. Gallwch gystadlu fel tîm hefyd - y gystadleuaeth hon yn arbennig i'r rhai na fu'n dysgu'r iaith ond ers blwyddyn.

Beth am gyfansoddi? Mae yna nifer o destunau diddorol i'ch denu - o gyfansoddi cerdd i baratoi pamffledyn ar gyfer ymwelwyr.

Cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod ym Margoed am fanylion pellach, neu holwch yn eich siop leol am gopi o'r Rhestr Testunau.

Dyma'r cyfeiriad: Swyddfa'r Eisteddfod, 41 Heol Hanbury, Bargoed, Morgannwg Ganol CF8 8SQ. Rhif ffôn: 0443 821 677

'BLAS BRO' (Radio Cymru)

Penderfynwyd fod elw cytundebau'r cyfraniadau a ddefnyddiwyd ar y rhaglen uchod, yn mynd yn uniongyrchol i gronfa'r 'Eco', ac nid i'r darllenwyr a'r awduron. Diolch i bawb fu'n cymryd rhan. Gol.

RHODDION

Deallwn fod cyfaill wedi anfon rhodd i'r Eco ers yr Haf ac heb gael cydnabyddiaeth o hynny.

Chwi ohebwyd pentrefi cofiwch anfon y rhoddion trwy law'r Golygyddion, neu ni ellir cyhoeddi'r

OSMOND SHAW DEINIOLEN



GWERTHU

- TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

LLYTHYRU GYDA'R FRENHINES



Carwyn John Morris o Fethel yn dangos llythyr oddi wrth y Frenhines i'w gyd-ddisgyblion. Isod, mae ei ffrind Eurig Druce yn adrodd yr hanes.

Mae Carwyn John Morris, sydd yn ddisgybl yn nosbarth pedwar, Ysgol Gynradd Bthel, yn gweithio ar gywaith am geffylau. Mae o hefyd yn cadw ceffylau ar ei fferm. Wrth iddo weithio ar ei brosiect, cafodd y syniad o yrru llythyr i'r frehines. Ysgrifennodd Carwyn y llythyr ar gyfrifiadur yr ysgol.

Ar ôl ychydig o wythnosau,

cafodd Carwyn ateb i'w llythyr, a thair tudalen o wybodaeth am geffylau y frenhines. Meddai Carwyn fod y wybodaeth yn ddiddorol iawn ac mae o wedi ei ddefnyddio i gyd yn ei brosiect.

Mae'n siwr y bydd y rhaid i mi aros wyth deg naw o flynyddoedd cyn derbyn llythyr gan y frenhines.

GAIR GAN Y GOLYGYDDION

enwau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Gol.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gronfa'r Eco:

£25 - Teulu Bryn Mair, Llanrug. £10 - Margaret a Ceinwen. £5 - Elfed a Gwenda Roberts, Caernarfon; £5 Mrs Karen M. Jones, Tŷ Capel Sardis, Dinorwig; £5 - Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, Deiniolen. £3 - Arwel a Janice, 1 Penmount, Pwllheli. £2 - Mr a Mrs M. H. Thomas, Tan-y-Foel, Waunfawr; £2 - Mrs L. Idris Jones a Bryn, Goleufryn, Waunfawr; £2 - Mrs M. A. Owen ac Evelyn, Bodafon, Stad Tŷ Hen, Waunfawr; £2 - Mrs Ellen Roberts, 12 Llys y Gwynt, Penisarwaun; £2 - Arwel a Louise Williams, Norfolk Villa, Llanrug.

EGLURHAD

Nid yw popeth sy'n cael ei anfon i'r golygyddion yn cael ei gyhoeddi. Mae amryw o resymau am hyn. Gallai ambell adroddiad fod yn enllibus er enghraifft. Mae adroddiadau eraill yn ein cyrraedd yn llawer rhy hwyr i fod o ddiddordeb i ddarllenwyr sydd eisoes wedi eu darllen mewn cyhoeddiadau eraill - Cymraeg neu Saesneg. Cawn hefyd rai adroddiadau s'n anamserol. Bryd hynny gofynnwn am yr hawl i gadw'r adroddiad hyd amser priodol. Dyna yw gwaith GOLYGWYR!.

I'r rhai ohonoch sy'n anfon ar y drefn, mae croeso i chwi gynnig eich hunain fel golygyddion (neu swyddogion cynorthwyol eraill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

GWASANAETHAU ARIANNOL

ERYRI

FINANCIAL SERVICES



41B STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 872003



Guardian
Royal
Exchange

lwybra

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

MARWOLAETH: Ar Ragfyr 15 yng Ngherrig yr Afon, Y Felinheli, bu farw Mrs Myfanwy Closs Hughes (7 Tai Caradog, gynt), yn 90 oed. Hannai o'r Fachwen a bu'n dysgu am flynyddoedd yn Hen Golwyn a Chaeathro. Bu hi a'i diweddar wr yn aelodau ffyddlon a gweithgar yng nghapel Disgwylfa ac yno y cynhaliwyd gwasanaeth ei hangladd. Gwasanaethwyd yn y capel ac ym mynwent Macpela gan y Parchedigion John Pritchard, Trefor Lewis, Stanley H. Williams ac Eifion Wyn Williams. Y cludwyr oedd John Ll. Evans, Ieuan Closs Evans, Richard O. Williams a Bobby Williams.

Dymuna'r teulu ddiolch i'r cymdogion a'r cyfeillion am eu teyrngarwch a'u caredigrwydd drwy'r blynyddoedd.

MERCHED Y WAWR: Cafwyd noson o ganu carolau yng nghyfarfod mis Rhagfyr gyda Mrs Betty Wyn Davies wrth y piano. Enillydd y raffl oedd Mrs Marian W. Williams.

Yng nghyfarfod mis Ionawr cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Bobby Williams ar bedwar llyfr yn ei feddiant a soniodd hefyd am Alafon a fu yn weinidog yn Ysgoldy.

Diolchwyd i Mr Williams gan Mrs Buddug Jones a Mrs Eirlys Williams. Enillydd y raffl oedd Miss Moeller.

Bydd y cyfarfod ar Chwefror 19 dan ofal Mr Gwyn Parri, Cynefin. Y SEINDORF: Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Rhagfyr oedd: 1, (£20) Rhif 139 Cledwyn Parry, Gwyrfa Terrace; 2, (£15) Rhif 33 Sian Roberts, Caernarfon, c/o Ellis Wyn; 3, (£10) Rhif 110 Mrs Rita Woods, Fron Heulog, Dinorwig. CLWB ELIDIR: Bu cyfarfod o'r Clwb ar Ionawr 16 dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Cydymdeimlwyd â Mrs Laura Williams ar golli chwaer a nith yn ddiweddar, a dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Grace Williams a Mrs Jennie E. Williams.

Cafwyd rhoddion anrhydeddus tuag at y Clwb, yn ôl eu harfer bob blwyddyn, gan Mr Dafydd Morris, Cefn Coch a Mrs Blodwen Pritchard.

Gwesteion y tê oedd Mrs O. R. Williams, Mrs Aileen M. Jones a Miss Eileen Williams. Rhoddwyd y raffl gan Miss Eileen Williams ac fe'i henillwyd gan Miss Katie Griffith.

PWYLLGOR RHEOLI CANOLFAN DEINIOLLEN: Rhyw ddwsin o bentrefwyr welodd yn dda i droi i mewn i Gyfarfod Blynnyddol y Ganolfan, a gynhaliwyd ar Ragfyr 15. Yno derbyniwyd gyda diolch adroddiad y Trysorydd, Buddug Jones, ynn cadarnhau bod y sefyllfa ariannol yn foddhaol. Valmai Williams, Ysgrifennydd Llogi'r Ganolfan, fu'n adrodd fod y Neuadd a'r Caban wedi'u defnyddio rhyw dri chant o weithiau yn ystod 1989. Roedd Valmai a Buddug yn ymddeol o'u swyddi wedi blynyddoedd o wasanaeth, a diolchwyd yn wresog iddynt gan y Cadeirydd, Donald Jones, am eu ffyddlondeb a'i diwydrwydd.

Enwebwyd unarddeg o bersonau

gan fudiadau'r pentref, ac yn dilyn pleidlais gudd, etholwyd y chwech canlynol i wasanaethu ar y Pwyllgor Rheoli am 1990, yn ychwanegol at yr aelodau cynrychioladol eraill: Arwel Hughes, Clwb Ieuenctid; Donald Jones, Cyngor Eglwysi; Idwal Jones, Cymdeithas Lenyddol; Elfed Williams, Clwb Peldroed; Colin Worth, Clwb Snwcer; Robert Williams, Eisteddfod Gwaun Gynfi.

Ers dechrau Ionawr bu Alun Wyn Evans, Owie Gibson a Donald Jones, yn brysus wrthi'n paentio a chymennu'r caban. Bellach mae'r gwaith hwnnw wedi ei gwblhau, ac mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iddynt am gymwynas dra derbyniol. Does dim angen pwyso ar neb o'r defnyddwyr i barchu y llafur cariad hwn.

Cyferfu'r Pwyllgor Rheoli ar Ionawr 18, pryd yr etholwyd y Swyddogion canlynol am 1990: Donald Jones, Cadeirydd; Ifor Glyn Evans, Is-Gadeirydd; Elfed Williams, Trysorydd, (12 Ffordd Deiniol, Tel. 871406); Carol Ann Jones, Ysgrifennydd Llogi'r Ganolfan, (3 Rhes Cynfi, Tel. 871058); Robert Williams, Ysgrifennydd Cyffredinol.

Penderfynodd y Pwyllgor gadw at y prisiau presennol am hurio'r Ganolfan am flwyddyn arall - hynny er gwaethaf pwysau chwyddiant. Bydd rhai rhieni yn falch o glywed hefyd y bydd y Caban i'w gael, ar ôl oriau ysgol, er cynnal partïon penblwydd i ddisgyblion Ysgol Gwaun Gynfi. Mae'r Pwyllgor yn daer hefyd am i ddefnyddwyr nodi na chaniateir ysmygu yn y Caban nac yn Neuadd y Ganolfan o hyn ymlaen, ac y byddant yn gweithredu'r rheol hon yn llym. Bwriedir ceisio cwprdd neu ddau ar fyrder i gadw offer mewn diddosrwydd yn y Caban, ac os oes rhai o'r pentrefwyr yn medru cynnig y cyfryw yn rhad ac am ddim, byddai aelodau'r Pwyllgor yn falch o glywed oddi wrthyh.

SEINDORF: Nos Sul, Ionawr 14, cynhaliwyd Pwyllgor Blynnyddol y Seindorf dan gadeiryddiaeth Mr Gwyn Oliver Jones. Diolchodd Mr Jones i'r Swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn, ac i'r ddau arweinydd, Mr Graham Sanders a Mr Dafydd Wyn Williams am lwyddiant ysgubol y ddau fand yn ystod y flwyddyn.

Llongyfarchwyd Eilir Williams am ennill tarian chwaraewr gorau'r flwyddyn yn y Seindorf Ieuenctid; Iwan Williams ac Eilir Williams ar gael eu derbyn i Seindorf Ieuenctid Cymru; Dylan Cole Jones am ennill cwpan lwffoniwm gorau Gogledd Cymru, a David Wyn Evans am ennill Tarian Goffa Mr John Childs am ei waith i'r Seindorf drwy'r flwyddyn.

Derbyniwyd y fantolen ariannol yn unfrydol.

Deallwyd fod Iwan Williams am ymuno â Band British Telecom ym Manceinion. Mae Iwan ar hyn o bryd yn dilyn cwrs cerdd yng Ngholeg Salford. Bydd ymadawiad Iwan yn golled fawr i'r Seindorf. Diolchwn iddo am ei waith rhagorol dros y blynyddoedd a dymuno pob

OFFERYNNWYR IEUENGAF Y SEINDORF



Pump o offerynnwyr ieuengaf Seindorf Deiniolen ar ôl cymryd rhan mewn cyfarfod carolau ym mis Rhagfyr. Y pump yw Alaw Mari Hughes, Jennie Lynne Morris, Lyndsey Parry, Gethin Williams a Shaun Jones.

llwyddiant iddo yn y dyfodol.

ENILLYDD TARIAN DEYRNGED Mr a Mrs O. H. JONES



Eilir Williams, chwaraewr gorau Seindorf Ieuenctid Deiniolen am 1989, yn derbyn Tarian Deyrnged Mr a Mrs O.H. Jones gan Mr Dafydd Williams, Arweinydd y Seindorf.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ragfyr 4 o dan arweiniad Mrs Eirlys Lloyd Jones, y llywydd, pryd y cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol gyda Mrs Maud Williams, Caernarfon, y VCO.

Darllenodd Mrs J. Eirlys Williams yr is-lywydd y llythyr misol. Cafwyd adroddiad gan Mrs Eirlys

Lloyd Jones y llywydd a darllenwyd y cofnodion am y flwyddyn gan Mrs Beti Wyn Davies yr ysgrifennydd. Diolchwyd i Mrs Williams gan Mrs Eirlys Lloyd Jones.

Rhoddwyd y tê gan y pwyllgor, ac enillwyd y raffl gan Mrs Marian Wyn Williams.

Dyma'r pwyllgor am 1990: Llywydd, Mrs J. Eirlys Williams; is-lywydd, Mrs Eirlys Lloyd Jones; Ysgrifennydd, Mrs Beti Wyn Davies; Trysorydd, Mrs Marian Williams. Hefyd ar y pwyllgor: Mrs Beryl Hughes, Missa Jean Moeller, Mrs Eirian Jones, Mrs H. J. Thomas, Mrs Marian Wyn Williams, Mrs Beti Williams, Mrs Glenys Williams.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ionawr 9 o dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams y llywydd. Croesawodd Mrs Williams yr aelodau i'r cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd. Darllenodd Mrs Williams y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Trafodwyd materion ynglyn a'r Sefydliad a threfnu rhaglen am y flwyddyn.

Pasiwyd cydymdeimlad â Mrs Elizabeth Foster ar golli ei chwaer a Mrs Joan Parry ar golli ei chwaer - yng - nghyfraith. Dymunwyd gwellhad buan i Miss Eileen Williams ar ôl cael triniaeth yn yr ysbyty. Dymunodd yr is-lywydd benblwydd hapus i'r llywydd yn 70.

Gwaith Adeiladu? Gwaith Grant ac Insiwrans?
Dewch at

R. A. OWEN
9 TAI GLANDWR, CLWT Y BONT
DEINIOLLEN

Ffôn 870693 (dydd) 870069 (min nos)

Trwsio Toi, Teilsio Waliau a Lloriau, Concritio Llwybrau,
Plastro, Gosod Llechi, Paentio ac Addurno, Waliau,
Byrddau Plastar, Trwsio Simneiau, Gwaith Plymio.

DEINIOLLEN (PARHAD)

Rhoddwyd y te gan Mrs Beryl Hughes a Mrs Marian Wyn Williams ac enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 5 pryd y bydd Miss Jean Moeller yn dangos sleidiau.

CYNGOR EGLWYSI: Roedd capel Ebeneser yn rhwydd lawn bawn Sul Rhagfyr 17, ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig a gyflwynwyd gan ddisgyblion Ysgol Gwaun Gynfi, dan arweiniad Mr gwynfryn Jones. Wrth ddiolch i'r staff a'r disgyblion am gymwynas newydd i'r Cyngor, canmolodd y Llywydd, Mrs Eirlys Williams, naws a naturioldeb yr oedfa. Gwnaed casgliad yn yr oedfa ac anfonwyd £100 yn enw'r Cyngor i helpu anffodusion Ethiopia.

Fore'r Nadolig, Y Parch D. John Pritchard fu'n cyfeirio meddyliau'r selogion tua Bethlehem, ac wedyn yn gweinyddu'r cymundeb. Yn ôl eu harfer roedd Robin a Rhodri, Afon Goch, yno ynghyd â rhai o'r anrhegion yr oeddynt wedi'u derbyn gan Siôn Corn y bore hwnnw. Roedd eu presenoldeb yn Festri Disgwyfya yn melysu'r oedfa, a rhywfodd yn rhoi gwefr arbennig i Wyl y Geni.

Yng nghapel Libanus y cynhaliwyd Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn, ar Ionawr 8, dan arweiniad y Parch Ifor Williams. Yn ôl ei arfer cafwyd neges obeithiol a chadarnhaol gan Mr Williams yn ein hannog i fyned ymlaen yn hyderus ar ddechrau degawd newydd.

Y Parch Ioan Davies, Bangor, a wahoddwyd i gymryd gofal o'r oedfa, dan nawdd y Cyngor, sydd i'w chynnal yn Festri Disgwyfya, am 7 o'r gloch, nos Lun, Chwefror 12. Estynnir croeso cynnes yno i

bawb.

SION ROBERTS (SION TRYSGOL): Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Dachwedd 29, 1989, ar ôl cystudd hir, bu farw Siôn Roberts, o 47 Rhydfadog, Deiniolen. Roedd yn 63 mlwydd oed. Annwyl briod Eurwen, a thad tyner John Wyn, Meirion a Malcolm, a thaid annwyl Gari, Gwenlli, Llŷr, Gerallt, Dafydd, Nia, ac Adam.

Bu'n gweithio am flynyddoedd yn chwarel Dinorwig gan symud wedyn i Bernard Wardle (Peblig) Caernarfon, ac yna i Gyngor Sir Gwynedd lle ymddeolodd oherwydd salwch ym 1984.

Yn ystod y Rhyfel, fe wasanaethodd gyda'r Llynghes Frenhinol gan dreulio peth o'r cyfnod yn Awstralia a'r Dwyrain Pell.

Mae'n iawn dweud mai'r llwch fu'n greulon iddo yn y blynyddoedd olaf a gwelir isod englyn gan Norman Closs-Parry (Fachwen gynt), sydd yn wir, nid yn unig am Sion, ond am lawer iawn o'i gyd-chwarelwyr.

Beddargraff Hen Chwarelwyr (Siôn Roberts a hunodd Tachwedd 29, 1989)

Creulon-ddistaw fu'r grawen - a adodd

Adwaith o bob llechen,

A hyll fu cyllyll y cen

Yn amar hyd ro'th gramen

Norman Closs-Parry

Dymuna Eurwen ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddi yn ei phrofedigaeth. Diolch hefyd i Feddygon Waunfawr am eu gofal tyner. Gwnaethpwyd rhodd i Feddygfa Waunfawr a Chymorth Meddygon Deiniolen.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Ionawr 6, yng nghapel Annibynwyr Bethel, priodwyd Gwenno Mair Owen, merch Mr a Mrs Seiriol Wyn Owen, Crud yr Awel, a Michael Lyndon Bond, mab Mr a Mrs George Bond, Penrhosgarnedd, Bangor.

Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu bywyd priodasol ac yn eu cartref newydd yn Llanfairfechan. **DIOLCH:** Dymuna Michael a Gwenno ddiolch o bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen nos Fercher, Ionawr 10, dan lywyddiaeth Mrs Glenys Griffiths.

Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs Sally Hughes a fu'n aelod o'r gangen am flynyddoedd.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs J. Christinson, Tŷ Capel, a dymunwyd yn dda i Mrs Mary Williams, Awelon, ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Mrs Bet Owen ar briodas ei merch, Gwenno, a llongyfarchwyd Mrs Eirlys Williams a'i gŵr ar eu llwyddiant yn y rhaglen deledu Cyfle Byw.

Y gŵr gwadd oedd Mr Emyr Price a roddodd sgwrs a sleidiau ar Rwsia. Diolchwyd iddo gan Mrs Eirlys Williams. Paratowyd te a bisgedi gan Mrs Nora Parry, Mrs Anne Elis a Mrs Sheila Roberts, ac enillwyd y raffl gan Mrs Bet Owen.

Atgoffir yr aelodau y bydd y cyfarfod nesaf wythnos ynghynt nag arfer, sef Chwefror 7, pryd y bydd Karen Thomas yn dod i sôn am Harddwch.

CYDYMDEITHAS RHINIEN AC ATHRAWON YSGOL BETHEL: Dyma restr o enillwyr Raffl Nadolig y Gymdeithas: £30, Gaynor Long, Ysgol David Hughes; £20, E. Hughes, Twll Clawdd, Llanrug; £10, Arfon Hughes, Cae Rhos Farm, Bethel; Siocled, Graeme Sutherland, Deiniolen; Gwin, Betty Owen, 1 Llanfair Hall, Felinheli; Gwin, Glenys Griffiths, Llwyn Eithin, Bethel; Gwin, Bethan W. Williams, 6 Cremlyn, Bethel; Siocled, Nan Owen, Berwyn, Bethel; Bisgedi, Carys Richings, Llanfair Hall, Felinheli; Bisgedi, Glyn Williams, Cefn Hendre, Caernarfon.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn arbennig i Mr a Mrs Johnson, Y Bedol, Bethel; Mrs G. A. Williams, Beaumaris; a Mrs Powell, Siop Sglodion, Bethel, am eu rhoddion hael. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd. Gwnaed elw o £315 i gronfa'r Gymdeithas.

CRONFA'R URDD: Bu mis Rhagfyr yn fis da iawn i gasglu arian at gronfa'r Neuadd newydd. Bu Sion Corn o amgylch y pentref a chasglwyd bron i £80 at y Neuadd a nos Wener, Rhagfyr 15 mewn Noson Goffi lwyddiannus iawn, gwnaed elw o dros £400.

CYDYMDEIMLO: Ar fore dydd Nadolig bu farw Miss Megan Hughes, Llys Orwig. Bu Miss Hughes yn Sister yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, am flynyddoedd. Mae ein cydymdeimlad dwysaf a'r teulu yn eu profedigaeth. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR**

URDD: Un o brofiadau mwyaf pleserus pobl syn byw yn ardal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ydi cael cynnig llety i blant o wahanol ardaloedd o Gymru. Erbyn hyn mae Pwyllgor Llety a Chroeso yr Eisteddfod wedi dechrau casglu enwau pobl sy'n barod i gynnig llety yn ystod Eisteddfod Dyffryn Nantlle ac Arfon. Mae Mrs Rita D. Williams, cynrychiolydd Bethel ar y Pwyllgor wedi rhannu'r pentref rhwng nifer o bobl fydd yn dosbarthu ffurflenni yn gofyn am lety. Os nad ydych wedi cael ffurflen ac os ydych yn awyddus i gynnig lle i aros i blant yr Eisteddfod, dylech gysylltu â Mrs Rita Williams ar unwaith os gwelwch yn dda.

YR URDD: Bellach mae'r tymor newydd wedi cychwyn, gyda sesiwn o ddawnsio gwerin. Bu Mrs Pauline Wyn Jones yn ymweld â'r gangen i ddewis genethod ar gyfer y dawnsfeydd blodau ym mhrif seremoniau yr Eisteddfod Genedlaethol, - gobeithio y caiff rhai ohonynt eu dewis.

Cawsom noson ddifyr yng nghwmni Jên Williams, Swyddog Datblygu, - dangosodd ffilm ar wersylloedd Llangrannog a Glanllyn.

Mair Price ymwelodd â'r gangen i ddathlu Noson Santes Dwyngwen, ac ar ôl clywed hanes y chwedl, bu'r plant wrthi'n brysur yn gwneud cardiau Dwyngwen.

Dyma gyfnod yr Eisteddfodau Cylch a Sir. Digon o weithgareddau yn cymeryd lle o fewn y gangen - dawnsio disgo, dawnsio gwerin, partion adrodd, canu a cherdd dant, a Chôr. Os oes rhywun yn dymuno cystadlu'n unigol, cysylltwch â Rita Williams erbyn Chwefror 10.

Cewch gyfle i fwynhau rhai o gystadlaethau yr Eisteddfod yn y Noson Goffi ar Fawrth 2. Cofiwch amdani, a dewch i gefnogi'r plant. **LLWYDDIANT CERDDOROL:** Llongyfarchiadau i Aled Lloyd Griffiths, Llwyn Eithin, am dderbyn gwahoddiad i chwarae mewn cyngerdd arbennig a drefnwyd gan y Bwrdd Cerdd Brenhinol, yn Neuadd Powys, Coleg y Brifysgol, Bangor, yn ddiweddar. Canlyniad yw hyn, i Aled lwyddo yn ei arholiad lwffoniwm, Gradd 6 gyda 130 o farciau. Cafodd ei baratoi tuag at yr arholiad gan Mr Dennis Williams yn Ysgol Brynrefail.

COFIWCH rydym yn parhau i chwilio am **DREFNYDD PLYGU**



AWEN Y DRAENOG

BRATHIAD LLYGODEN

Ym misoedd oer y gae,
Daw llygod 'mewn o'r cae'
I geisio c'nesrwydd, cwsg a bwyd,
A hyd 'noed ddarnau trwyna'.

Yng Nghlwt-y-Bont mae Alwyn,
Ynghyd â'i deulu dedwydd,
Ond ll'goden fach a'i gwylltiodd o,
Wrth grafu mewn parwydydd.


Rhoes lwmp o gaws i ddal y gwalch,
Ac wir i chi o fewn y trap,
Y plant ddarganfu ll'goden fyw
'Wel rhaid fydd deud wrth Dad'.

Rasiodd y plant i fyny grisia'
A gweiddi 'Dad, o Dad, plis deffra.'
A dychryn wnaeth y ll'goden fach,
A'i frathu yn eu ffroena'.

I 'Sbyty Gwynedd aeth y claf,
Am bigiad rhag y gwenwyn,
A hir fu'r aros nes daeth nyrs,
A chlywyd hi yn gofyn:
'Ddaw Mickey Mouse i mewn nawr
plis?'

Wel dyna ddig'wyleidd-dra!
Pe gwyddai hi mor ffyrnig oedd
Yr un a frathai drwna'.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556



PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

PWYLLGOR MERCHED Y BAND: Ym mhwyllgor cyntaf y flwyddyn ar y 15fed, penodwyd swyddogion newydd, sef: Cadeirydd, Mrs Mair Huws; Trysorydd, Mrs Gwenda Roberts; Ysgrifenyddes, Mrs Heulwen Williams.

Dymunodd y pwyllgor estyn eu cydymdeimlad â Raymond a'i deulu yn eu profedigaeth o golli Joyce ac hefyd i Margaret a'r teulu o golli ei thad.

NOSON GOFFI: Yn Ystafell y Band am 7 o'r gloch NOS IAU, Chwefror 15. Bydd byrddau gwerthu hefyd. **Y GYMDEITHAS:** Mewn cyfarfod o'r Gymdeithas Undebol yn Ffestri Pontrhythallt nos Fawrth, cafwyd noson ddifys yng nghwmni Mr Edward Morus Jones, Llandegfan. Llywydd y cyfarfod oedd Miss Megan Humphreys, a thalwyd diolch i'r siaradwr gan y Parch Eryl Blaney.

MARWOLAETH: Dydd Sadwrn, Ionawr 20, bu farw Mr David Roberts, Bro Rhyddallt. Cydymdeimlir a'r teulu yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Catrin Thomas, Bron-y-Nant, ar ei llwyddiant yn pasio arholiad Gradd 4, mewn chwarae'r piano.

DIOLCH: Dymuna teulu'r diweddar Mr Ieuan James ddatgan eu diolch cywiraf i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau, am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch i'r Parch J. Ronald Williams, y Parch W. O. Roberts a'r Parch Ifor Rowlands; ac am ofal meddygon Llanberis a Nyrs Iona Williams, Llanrug. Diolch o galon i'r llu o rieni, athrawon a chyn-ddisgyblion o Ysgol Brynrefail am eu ffyddlondeb.

ENNILL GRADD: Llongyfarchiadau i Richard, mab Mrs J. E. Roberts a'r diweddar Mr Emrys Roberts, Gwyndy, ar gael gradd B.A. (Prifysgol Agored) mewn Gwleidyddiaeth a Chymdeithaseg.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Llenyddol Capel Mawr nos Fercher, Tachwedd 22, gyda Mrs Meryl Green yn llywyddu. Noson o Hawl i Holi gyda Mr Iolo Huws-Roberts yn cadeirio. Y Panel oedd Mrs Ann Evans, Penisarwaun, Mrs Menna Williams, Llanrug, Mr

Tegid Roberts, Llanrug a Mr D. Idriswyn Roberts, Rhoscefnhir. Diolchodd Mrs W. O. Roberts i'r Cadeirydd a'r Panelwyr am noson mor ddifys. Paratowyd y baned gan Mrs Nan Williams, Mrs Beryl Thomas, Mrs W. O. Roberts, Mrs Mai Parry.

Yna, ar nos Fercher, Rhagfyr 6, gyda Mrs W. O. Roberts yn llywyddu, cafwyd cwmni Mr Dewi Tomos o Rostryfan, aeth a ni am dro drwy Ddyffryn Nantlle drwy gyfrwng sleidiau a chwedlau gwerin. Roedd aelodau o Gymdeithas Undebol Pontrhythallt wedi ymuno â ni. Daeth Mr Tomos atom ar fyr rybudd, oherwydd anhwylder Mr Arwel Jones Penisarwaun a Mr Hugh Jones, Glanrhyd.

Diolchwyd i Mr Tomos gan Miss Malan Roberts, ac ar ran Pontrhythallt gan Mr Emrys Owen. Paratowyd y baned gan Mrs C. Roberts, Mrs M. Williams, Mrs K. Pritchard, Mrs Parry, Mrs I. Butler, Mrs E. Ellis Owen, a diolchwyd iddynt gan Mrs Jean Davies.

CAPEL MAWR: Cynhaliwyd cyfarfod gweddi dan nawdd y Gymdeithas, nos Fercher, Ionawr 10. Cymerwyd rhan gan Mr John W. Owen, Mrs Megan Williams, Mrs W. O. Roberts, Mr Alf Parry a'r Parch John Morris. Yr organyddes oedd Mrs N. Lovatt.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Fercher Ionawr 24, pryd y cafwyd noson o adloniant gan Barti Awelon y Mynydd o Garmel. Llywydd y noson oedd Mr Gwilym Rees Parry. Diolchwyd i'r Parti gan Mrs N. Lovatt.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Chwefror 7, pryd y ceir sgwrs gan Mr Robert Williams, Llanrug.

DIOLCH: Dymuna Elfed a Gwenda Roberts, Gwelfon, Ffordd Bethel, Caernarfon, ddiolch o galon i drigolion Llanrug am eu caredigrwydd a'r rhoddion a dderbyniodd Manon yn ystod ei thriniaeth yn Alder Hey. Carent ddiolch i'r Ysgol Feithrin am eu rhodd ac i Bwyllgor Apêl Manon am eu gwaith caled i drefnu'r cyngerdd. Diolch hefyd i'r artistiaid a roddodd eu hamser prin i gynnal y cyngerdd.

Gwerthfawrogi'r fawr y

CYFLWYNO RHODD I MANON



cymorth a dderbyniwyd gan feddygon Waunfawr.

MERCHED Y WAWR: Aeth nifer llai na'r arfer i ginio Nadolig y gangen a gynhaliwyd eleni yn y Llofft Hwyliau yn y Felinheli. Ar yr hen fflw roedd y bai i gyd. Gobeithio'n wir fod pawb wedi gella'n llwyr erbyn hyn.

Diolch i Nan Humphreys am drefnu'r noson ac am y croeso a'r pryd blasus gawsom yn y bwyty.

Yng nghyfarfod mis Ionawr cawsom fynd o oerni'r gaeaf am gyfnod, yng nghwmni Gwen Aaron, yr holl ffordd i Beriw yn Ne America. Bu'n sôn am ei gwyliau ac yn dangos sleidiau i ni. Yn ogystal â hyn rhoddodd gefndir hanesyddol hynod ddidorol y wlad i ni. Diolchwyd iddi gan Eryl Roberts.

Anfonodd Ann Ifans, y llywydd, ein cofion a'n cydymdeimlad dwysaf at Margaret Jones, Dwyros, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 13 gyda chwis yng ngofal Mr Huw Jones, Glanrhyd. Edrychwn ymlaen i gael croesawu cangen Rhiwlas atom.

YSGOI GYNRADD LLANRUG: Croeso'n ôl i Mrs Eirian Howells, athrawes Safon 1, sydd wedi bod ar absenoldeb mamolaeth. Ar yr un pryd rydym yn diolch yn ddiffuant i Mrs Rhiain Gwyn am ei hymroddiad llwyr a'i gofal o Safon 1 yn ystod y cyfnod hwnnw.

Llongyfarchiadau i dîm peldroed 5 bob ochr yr Urdd ac i Mr Ieuan Wyn sy'n eu hyfforddi. Hwyl eleni yw pencampwyr Sir Eryri. Byddant yn mynd i'r gystadleuaeth Genedlaethol yn Aberystwyth a Ebrill 7.

Bu Catrin Eleri Jones, Safon 4, ym Manceinion yr wythnos ddiwethaf yn nofio ar ran Clwb Nofio Bangor. Daeth yn drydydd yn ei chystadleuaeth. Da iawn, Catrin!

Cafodd Safon 3 a Mrs Rhiannon Jones eu hathrawes y fraint o groesawu Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr, atynt. Treuliwyd prynhawn difyr ian yn ei chwmni yn crwydro o gwmpas Llanrug.

Tra mae'r newyddion yma ar ei ffordd i'r wasg, mae Sion Wyn Pritchard ac Arwel ei frawd bach, yn bur bell o Lanrug. Maent wedi mynd i America i weld Lowri. Fe aethant a'n cofion a'n dymuniadau gorau ni i Lowri yr holl ffordd gyda hwy.

Llongyfarchiadau i Miss Amranwen Lynch ar gael ei phenodi'n ddirprwy brifathrawes yr ysgol. Bydd yn cychwyn ar ei swydd ar ôl y Pasg ac edrychwn ymlaen i gael ei chroesawu atom bryd hynny.

YR URDD: Nos Lun, Ionawr 15 daeth aelodau'r Urdd, safon 3 a 4 adran Tref y Gelli atom i Lanrug. Cafwyd noson ddifys o gwis am Gymru. Yna cafwyd gêm o Uni-hoc rhwng y ddwy ysgol. Diolch i Mrs Rhiannon Jones am drefnu'r noson.

Ar yr un noson aeth plant safon 1 a 2 Llanrug i lawr i Ysgol y Gelli lle roedd Mr Alun Roberts wedi trefnu amrywiaeth o gêmiau ar eu cyfer. Diolch iddo yntau am noson roddodd fwyndad i bawb.

Ar Ionawr 22 aeth nifer mawr o'r aelodau i lawr i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Buont yn nofio am un cyfnod ac yn y gampfa am weddill yr amser. Diolch i bawb fu'n helpu gyda'r

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**


**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR,
LLANRUG**
Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.
Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon
5754

PEL-DROEDWYR YR YSGOL GYNRADD



plant y noson honno.

Pel-rwyd: Cafodd y tîm pêl-rwyd gychwyn ardderchog i 1990. Cawsant gêm yn erbyn tîm ysgol Felinheli ac ennill 10-0.

PLAID CYMRU: Roeddem yn falch o groesawu aelodau o gangen Bethel atom i gyfarfod mis Ionawr o'r gangen. Croesawyd pawb gan Phyllis Ellis. Trefnwyd cwis gan Arwel Jones a chafwyd noson hynod o hwyliog a diddorol.

Enillwyd y raffl gan Jan Owen, Bethel.

Enillwyr y Clwb Cant oedd: 1, Gwilym Rees Parry, Morannedd; 2, Gareth Roberts, Gregynog.

Trefnwyd y te gan Meryl Green a Vera Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher Chwefror 7 am 7.30 yn yr Ysgol Gynradd pan ddaw Elfed Roberts, Trefnydd Rhanbarth Arfon o Blaid Cymru atom, ac edrychwn ymlaen at ei gwmni a'i annerchiad.

Bydd y noson i'r teulu i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda aelodau o gangen Llanberis ar nos Iau, Mawrth 1 yn y Fictoria, Llanberis am 7 o'r gloch. A rowch eich enwau i Olwen Llywelyn neu Nan Humphreys os ydych am ddod. Bydd croeso i'r aelodau a'u ffrindiau.

DIOLCH: Dymuna Arwel a Louise Williams, Norfolk Villa ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar

enedigaeth eu merch fach, Emma.

DIOLCH: Dymuna Beti a Len, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am y gefnogaeth a gafodd Len ar ei daith o awr o gerdded er budd Canolfan Segontium, ac hefyd diolch i'r teulu a'r cymdogaion am eu caredigrwydd tuag at Len dros dymor y Nadolig. Diolch yn fawr.

YR YSGOI FEITHRIN: Dymuna pwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiolch o galon i bawb a'u cynorthwydd yn eu hymgyrch i godi arian i adnewyddu'r caban. Diolch hefyd i'r rhieni hynny a dreuliodd oriau lawer yn cynorthwyo gyda'r gwaith.

Diolch yn arbennig i John Owen, Hafod y Rhos. Oni bai am ei ddyfalbarhad ef, byddai'r gwaith wedi cymryd wythnosau lawer i'w gwblhau.

Mae pawb yn hapus iawn gyda'r caban ar ei newydd wedd ac yn hynod falch i ni gael caniatâd i'w osod ar iard yr ysgol gynradd.

Ar Ionawr 1 ganwyd mab i David a Linda Owen, 6 Ffordd Glanffynnon - Gethin, brawd bach i Catrin ac ŵyr i Merfyn a Gaenor Owen, Lliwedd, Ffordd Glanmoelyn - calennig gwerth chweil.

CLWB IEUENCTID: Yn ystod mis Ionawr daeth Brian Griffiths i'r clwb i hyfforddi torri ar wydr a lledr ac ar ôl trip i'r Ganolfan Hamdden yn Deeside daeth Gwen Kotkowicz i hyfforddi paentio ar ddefnydd neu grys T.

Mae pedair aelod wedi penderfynu cymryd rhan yn y cystadlaethau dawnsio disco. Er mwyn codi arian i wneud eu dillad mae'r clwb yn trefnu Sioe Ffasiwn gyda Noson Goffi ar nos Lun, Chwefror 5 - bydd croeso i bawb ar y noson.

Mae cystadlaethau rhwng clybiau yn bodoli ac mae clwb Llanrug wedi llwyddo mynd drwodd i'r ail rownd y cystadleuthau tenis bwrdd a dartiau.

CYNGERDD APÊL LOWRI: Dymuna trefnwyr y cyngerdd ddiolch i bawb am eu cymorth i wneud y noson yn llwyddiant. Diolch hefyd am yr holl roddion tuag at y raffl. Cyfanswm yr elw ar y noson oedd £1,274.40.

IEUAN LEWIS JAMES 1905 - 1989

Y gŵr urddasol golygus a'r gŵr bonheddig a fu yn athro ac yn brifathro yn Ysgol Brynrefail am gyfnod o ddeugain mlynedd.

Rhinwedd mawr ei gymeriad oedd ei gwrteisi tuag at yr athrawon, a chwarteisi tuag at y plant, ac yn enwedig y chwarteisi oedd yn dofi plant afreolus. Yr oedd gennym i gyd barch mawr iddo. Mae'n anhygoel cymaint yw dylanwad prifathro ar ysgol.

Dyn dieithr o'r de oedd, cartref y teulu yn Nhroed y Bryn, Gorseinon, yn ardal Pen yr Heol. Yr oedd ganddo feddwl uchel o'i filltir sgŵâr, o Gapel Brynteg, o Ysgol Tregŵyr a Choleg y Brifysgol Abertawe - ac yno y graddiodd mewn Ffiseg yn y dosbarth cyntaf.

Wedi cyfnod byr yn ysgol Dunbarton yn Abertawe derbyniodd swydd yn yr hen ysgol ym Mrynrefail. Y Prifathro ar y pryd oedd Mr R. B. J. Rowlands, ac fe'i derbyniwyd yn athro dros dro, ond bu yn Ysgol Brynrefail o 1928-1968.

Yma yr oedd ei gartref bellach, yma y priododd â Persis Hughes o Lanrwst a fu yn athrawes gwyddor tŷ yn yr ysgol am 7 mlynedd. Yma y magwyd eu plant, Eirian, Elwyn, Rhiannon a Gareth. Ond yr oedd acenion y de yn ei lais o hyd a'r hen gar BNY 90 yn adlais o'i wreiddiau yn ddwfn yng Ngorllewin Morgannwg.

Am 28 mlynedd bu yn athro ffiseg, ac wedi hynny yn ddirprwy brifathro ar ôl ymadawiad Mr Robert Morris.

Yn Ionawr 1956 symudwyd i'r Ysgol Newydd yn Llanrug, a bu yn gofalu am yr ysgol gan fod Mr Emrys Thomas, y Prifathro, yn wael. Yn ystod y flwyddyn cafodd ei benodi'n Brifathro.

Am flynyddoedd bu yn falch o gynrychioli athrawon ysgolion gramadeg yr hen Sir Gaernarfon ar y Pwyllgor Addysg.

Ffiseg oedd ei bwnc, ond roedd yn ddyn amryddawn, yn gerddor da ac yn wrandawr cyson ar gerddoriaeth clasurol ar y cyfryngau.

Dyn y chwaraeon hefyd; criced oedd ei brif gêm, cefnogwr tîm Morgannwg yn y dyddiau euraidd, ac mae yna gymaint o luniau ohono yn sefyll ac yn eistedd efo timau yr hen ysgol ar hyd y blynyddoedd - ac wrth gwrs roedd yn gefnogwr brwd tîm Elidir.

Nid oedd yn un i ddefnyddio geiriau gwag. Teyrnged bwysig iddo gan y colegau oedd y gellid



coelio pob gair o'r adroddiad llawn a roddai ar bob ymgeisydd am le mewn coleg. Roedd hynny yn wir hefyd am ei dystlythyrau i athrawon a phlant.

Roedd yn meddwl y byd o Ysgol Brynrefail a bu'n gyfaill da i genedlaethau o blant, rhieni ac athrawon, ac roedd wrth ei fodd yn adrodd hanesion doniol a difrif am yr hen ysgol. Cofion annwyl amdano.

M. V. J.

TEYRNGED I MR IEUAN JAMES: Y geiriau a ddaw i feddwl pawb a gafodd y fraint o adnabod Mr Ieuan James ydyw 'Bonheddwr Cristnogol'. Yr oedd bob amser ym mhob cylch ar fywyd yn ŵr bonheddig ac yn Gristion cywir i'r carn.

Yn ei alwedigaeth fel athro a phrifathro yr oedd yn uchel ei barch gan ei gyd-athrawon a'r plant ar gyfrif ei gymeriad cadarn a dilychwin.

Yn ardaloedd Waunfawr a Llanrug yr oedd gair da iddo gan bawb. Dewiswyd ef yn flaenor yn eglwys Croesyswaun a'r Bryngwyn a rhoddodd ei orau dros achos lesu Grist yn y naill eglwys a'r llall.

Yr oedd yn uchel ei barch ym mhob man mewn byd ac eglwys; ond yn ei gartref yr oedd yn Frenin ar ei aelwyd, yn gefn i'w briod ac yn esiampl odidog i'w blant.

Cydymdeimlwn fel cyfeillion ac ardal â Mrs James a'r plant yn eu colled fawr a'u trallod. Bydded i'r atgofion hyfryd sydd ganddynt am briod annwyl a thad a thaid caredig fod yn gysur ac yn nerth iddynt yn eu hiraeth yn awr ac i'r dyfodol.

W. O. R.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

CABS LLANRUG



C'FON 5951

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

ADREF O'R YSBYTY: Dymunwn wellhad buan i Mr Hywel Williams, Nant Forgan, a Mr David Pritchard, 23 Dol Afon, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd hyderwn fod Mrs Ann Hughes, 10 Dol Afon, wedi gwella ar ôl damwain modur.

LLONGYFARCHIADAU i Myfanwy, Bod Gwilym, ar gyrraedd ei phenblwydd yn 21 oed; i Medi a Gareth Jones, 13 Dol Afon, ar enedigaeth eu merch fach, Kerry Lloyd; i Edwina ac Alwyn Foulkes, 12 Dol Afon ar enedigaeth eu mab Gavin, brawd bach i Anthony a Kevin. Hefyd i Christopher, Arosfa, Fron Gader, ar achlysur ei benblwydd yn 21 oed.

DIOLCH: Dymuna Siân, 2 Bryn Gro, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna Myfanwy, Bod Gwilym, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 21. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mr Hywel Williams, Nant Forgan, ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am eu cyfarchion a'u caredigrwydd tra yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i feddygon a staff wardiau Glycer a Gogarth.

MARWOLAETH: Yn dawel yng nghartref ei ferch ar Ragfyr 14, bu farw Mr Edgar Williams, Fron Gader, yn 83 oed.

Saer maen fu ei yrfa ar hyd ei oes, ac roedd ganddo amryw o ddidordebau. Bu'n cadw gwenyn, tynnu lluniau, naddu cerrig ac roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn hanes lleol hefyd.

Bu ei angladd ar Ragfyr 18, gyda gwasanaeth yn yr Amlosgfa, Bangor, y Canon William Jones a'r Parch D. Noel Jones yn gwasanaethu.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysfa â'i briod, Mrs N. Williams, ei ferch Dorothy a'i fab Brian a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Cynthia a Gavin ar achlysur eu dyweddïad.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn yn Hafan Elan, Llanrug, ar Ionawr 11. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gweddi a thrafodwyd rhai materion gan Mrs Enid Taylor. Y wraig wadd oedd Mrs Barbara Sowood o Lanfairfechan, a'i thestun am y noson oedd 'I ddilyn y Seren'. Cafwyd noson ddiddorol yn ei chwmni a diolchwyd iddi gan Mrs D. Pierce. Yn gofalu am y te roedd Mrs E. Taylor, Mrs M. Barlow a Mrs J. Ransom. Miss Gwennie Griffith enillodd y raffl a roddwyd gan Mrs S. Edwards.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Chwefror 8, yn Hafan Elan.

GYRFA CHWIST: Cynhelir Gyrfa Chwist yn Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo ar nosweithiau Mercher, Chwefror 14 a 28 am 7.15 o'r gloch.

DIOLCH: Dymuna Mr Llewelyn Hughes, Hyfrydle, ddiolch yn galonnog iawn i Brifathro yr Ysgol Gymuned, y staff, Llywodraethwyr

a'r Gymdeithas Rhieni am y siec a dderbyniodd yn dilyn ei ymddiswyddiad fel aelod o Gorff Llywodraethol yr ysgol am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac i ddangos eu gwerthfawrogiad o'i gyfraniad diflino i'r ysgol dros yr holl flynyddoedd.

YMWELD A'R TRANSVAAL: Deallwn i Mr Eurwyn Williams, Llwyncoed, a'i fab Dafydd ymweld a'i ewythr Mr Michael Owen yn ei gartref yn Pilgrims Rest, Transvaal, yn ddiweddar.

Mae'n amlwg, wedi cael sgwrs ag ef, iddo fwynhau ymlacio yng ngwrês yr haul a rhannu atgofion o'i ardal gyda'i ewythr. Chwi gofiwch i Mr Michael Owen fod yn brif gymeriad yn y rhaglen deledu ddiddorol 'O Gwm-y-Glo i Gwm yr Aur' dan ofal Mr Gwyn Erfyl, yn olrhain cefndir ei fywyd. Mae amryw o ymfudwyr ddiwedd y ganrif ddiwethaf o ardaloedd Cwm-y-Glo a Deiniolen yn gorffwys ym mynwent Pilgrims Rest, Transvaal, De Affrig.

CLWB POBL Y CWM: Ddechrau Rhagfyr bu'r aelodau am drip siopio Nadolig i Rhyl, ac ar y 14eg, cafwyd Parti Nadolig ardderchog yn y Ganolfan. Clywsom rai eitemau difyr ar dâp gan blant Ysgol Gynradd Llanrug, ac yna aeth ein Llywydd, Mr Llew Hughes, a ni ar daith yn ôl o amgylch y siopau bach diddorol a welid yn y Cwm, o tua dechrau'r ganrif hyd y tri-degau.

Paratodd rhai ddanteithion ar gyfer y te, ynghyd â thoreth o nwyddau blasus a gawsom gan y Brodyr Morris, y Becws, a dymuni'r aelodau ddatgan eu diolch a'u gwerthfawrogiad i'r Brodyr am eu cyfraniad hael i ni bob blwyddyn.

Ein gŵr gwadd ar Ionawr 11 oedd ein cyn-brifathro, Mr Cledwyn Williams, Llanrug. Canolbwyntiodd Mr Williams ar gyfnod yr Ail Ryfel Byd, pan fu'n gwasanaethu yn y Fyddin, gan mwyaf o'r amser yn Burma. Bu'n sôn am brofiadau ambell daith, y trafferthion, y cymeriadau difyr a dwys a gyfarfu, a'r hiwmor oedd i'w weld drwy'r cwbl. Roedd un ohonom, sef Mr Russell Rowlands wedi bod gyda Mr Williams yn ystod y cyfnod yma, a difyr oedd clywed y ddau yn cyd-gofio ambell ddigwyddiad. Diolch i Mr Williams

YSGOL CWM-Y-GLO — PRYD?



Rhes uwch: John Ellis, Nellie Vaughan Hughes, ?, Jackie Prytherch, David Pritchard, ?, David Glyn Davies, Willie Rowlands, Gwilym Williams.

Rhes ganol: ?, ?, - Jones (Bwlch), Elwyn Sharp, Eifion Hughes, Gwilym Williams (Llwyni), Teddy Thomas, Robin Parry, Iorwerth Prydderch, Katie Myra Jones.

Rhes flaen: Dilys Williams, Bessie Price, Cissie May Pritchard, Enid Price, ?, Nellie Parry, Maggie Parry, Maggie Parry, Esme Davies, Mary Parry Williams, Nellie Maud Evans.

Llun o blant ysgol Cwm y Glo trwy law Mrs Margaret Williams, Bryn. Cafwyd yr enwau gan Mr Llew Hughes, Hyfrydle. Mae un neu ddau o'i enwau ar goll, ac ni wyddai ddyddiad y llun. Wyddoch chi?

am ddod atom, ac am b'nawn hynod o ddifyr.

Rhoddwyd y tê a'r Raffl gan y Brodyr Lloyd a Tom Owen. Enillwyd y raffl gan Mrs Jane Parry.

YSGOL GYMUNED CWMYGLLO: Blwyddyn Newydd Dda, ffrindiau. Ydy 1990 wedi dechrau yn dda i chi? Mae hi'n un digon gwlyb hyd yma, beth bynnag, yn tydi.

Erbyn hyn mae prysurdeb y Nadolig wedi mynd a hwnnw'n ddim ond atgof. Fe gawsom ni Nadolig digon prysur. Er na chawsom gyngerdd, fe gawsom barti. Dyna i chi fwyta fuodd yno, pawb yn cael blas ar y bwyd. Wrth gwrs, y plant oedd wedi trefnu a pharatoi y cyfan. Welais i erioed gymaint o deisennau a brechdanau, a chwarae teg iddyn nhw - yr oedd pob plât yn lan hefyd.

Cawsom wasanaeth Carolau hefyd. Ynddo, cymerwyd rhan gan gynrychiolydd o bob carfan o bobl sy'n ymwneud â'r ysgol. Diolch i bawb - yn enwedig felly i'r Parti Mamau, canu swynol iawn, ferched. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd y fraint o gyflwyno rhodd i Mr Llew Hughes ar ei ymddeoliad fel aelod o lywodraethwyr yr ysgol.

Cyn diwedd y tymor, bu'r plant yn cymryd rhan yn y Gystadleuaeth Llyfrau Cymraeg. Diolch i David, Bethan, Martin a Bryn am eu gwaith.

Llongyfarchiadau i'r nifer fawr a gafodd fathodyn nofio. Daliwch ati - rhag ofn i chi suddo!

Y peth diwethaf a wnaed ar ddiwedd y tymor oedd tynnu dau rif lwcus allan o Rifau Clwb Ysgol Cwm-y-Glo. Y ddwy ffodus oedd mam Martin (Mrs Parry) a mam Luke (Mrs Steele). Diolch i bawb am eu cefnogaeth a diolch arbennig i Mrs Steele am ei charedigrwydd.

Ar ddechrau'r tymor, bu Mrs Sue Shaw yma yn ymweld â'r Dosbarth Babanod ac yn dangos sut i wau siwmperi cynnes ar gyfer y gaeaf. Pe bawn i'n cael y gwlan, ella y gwnewch chi un i mi, Mrs Shaw? Maint 42 rownd y frest, plis!

Llongyfarchiadau i Mrs Rh. Jones y gofalu, ar gael ei gwneud yn nain. Gobeithio fod pawb yn iawn yn y teulu bach.

Am y tro, dyna'r cyfan. Hwyl i chi tan y mis nesaf. Edrychwch ar ôl eich hun.

Newydd glywed fod y Cyng. Francis Jones (Cadeirydd y Llywodraethwyr) wedi cael damwain efo'r car. Da clywed mai ar y car yr oedd y difrod ac nid arno fo. Gobeithio ei fod o a'r car yn gwella.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs William Chick, Rhos y Ffin ar fod yn daid a nain. Ganwyd hogyn bach i John a Pat ym Mae Colwyn..

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

'O BYDDDED I'R HENIAITH BARHAU' ??


Flwyddyn yn ôl, cyhoeddodd yr 'Eco' adroddiad llawn ar ymchwil a wnaethpwyd gan Rol Williams ar safle'r Gymraeg o fewn ein bro. Eleni, cadarnhawyd y canlyniadau rheini gan waith ymchwil a gomisiynwyd gan y BBC gogyfer a'r rhaglen 'Week in Week out'. Teitl y gwaith, a gwblhawyd gan yr Athro John Aitchison o Adran Ddaeryddiaeth Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yw 'Language Change in Wales'. Mae'r rhagolygon yn frawychus i'r rhai hynny sydd heb lawn sylweddoli'r broblem, ond yn cadarnhau ofnau y nifer gymharol fechan sydd wedi bod yn darogan hyn ers blyneddau.

Mae'r ystadegau a'r mapiau a ddefnyddir yng ngweddill yr adroddiad hwn yn deillio o'r ymchwil 'Language Change in Wales', ac yr ydym yn ddiolchgar i'r BBC am yr hawl i'w ddefnyddio.

Seiliwyd yr ystadegau ar ganlyniadau cyfrifiadau ym mhob un o 1002 o gymunedau Cymru yn 1981. Rhagolygon ydynt, wrth gwrs, ond rhagolygon wedi eu seilio ar y newid, ac ar y dirywiad syfrdanol sydd wedi digwydd yn ystod y ganrif hon.

Rhwng 1979 a 1989 roedd gostyngiad o 6.7% yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Pe bai hyn yn parhau fesul degawd, yna erbyn y flwyddyn 2101, dim ond 230,000 o bobl a fyddai'n siarad Cymraeg; (508,000 yn 1981) - ac fe fyddai'r rhain wedi eu boddi gan y di-Gymraeg, gan y byddai'r boblogaeth wedi cynyddu. Amcangyfrifir mai dim ond 5% o boblogaeth Cymru a fyddai'n medru'r Gymraeg erbyn y flwyddyn 2101 (19% yn 1981).

MAPIAU'N DANGOS DIRYWIAD Y CYMUNEDAU CYMRAEG



CYMUNEDAU GWLEDIG YN DIODDEF

Dyna'r patrwm bras, er fod y rhagolygon yn darogan y byddai cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd trefol megis Caerdydd, Bro Morgannwg a Gwent. Ond yn y cymunedau gwledig, Cymreig, byddai newid syfrdanol yn digwydd. Hynny yw, mewn ardaloedd tebyg i fro'r 'Eco'.

Rydym eisoes wedi dwyn sylw at hyn. Ym Medi 1986, yn dilyn anerchiad grymus y Dr Meredydd Evans ym Mhrifwyl Abergwaun, cyhoeddwyd ystadegau am 'Gadarnle'r Iaith' yn Arfon Wledig. Datgelwyd fod nifer y siaradwyr Cymraeg mewn SAITH o bentrefi'r fro hon yn is na chyfartaledd Arfon Wledig. Y saith oedd Clwt y Bont,

Brynrefail, Caeathro, Y Fachwen, Dinorwig, Ceunant a Betws Garmon. Ac y mae'n arwyddocaol nad oes newyddion yn cael eu hanfon i'r 'Eco' o nifer o'r pentrefi hyn bellach. Yr un mor arwyddocaol oedd sefydlu cangen o PONT ym Mhenisa'rwaun y llynedd - a hynny ym mro un o gyn-deidiau Saunders Lewis ei hun, a roes sylw cynnar i broblem yr iaith yn ei ddarlith radio 'Tynged yr iaith' bron i ddeng mlynedd ar hugain yn ôl.

Mae'r ymchwil diweddaraf hwn yn rhoi sylw arbennig i sefyllfa cymunedau gwledig, Cymreig yn y gorllewin a'r gogledd. Mae'r gyfres o fapiau yn dangos y cymunedau rheini ble byddai dros 75% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg - pe byddai patrwm dirywiad 1971-81 yn parhau. Yn 1981 roedd dros 75% o boblogaeth cymunedau Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug yn medru'r Gymraeg. Rhagwelir y byddai nifer y siaradwyr Cymraeg yn Llanddeiniolen yn is na 75% erbyn 1991, ac y byddai'r ddwy gymuned arall hefyd yn diflannu oddi ar y mapiau erbyn y flwyddyn 2001.



CYFYNGU DEFNYDDIOLDEB Y GYMRAEG

Y mae'r Athro Carter eisoes wedi dangos mai'r canran pwysig - yr hyn a alwa'n 'critical tipping point' - yn nifer y siaradwyr Cymraeg yw 80%. Islaw'r ffigwr hwn, meddai, mae'n dangos nad yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio ym mhob maes o fewn y gymuned. Hynny yw, nid yw'n cael ei defnyddio ym mhob agwedd o fywyd - yn yr ysgolion,

SNOWDON ECHO

COMMUNITY NEWSPAPER

March 2011

Welsh Column by Dysgwyr o Went

WELSH MINORITY AGAINST APPOINTMENT OF 'ENGLISH ONLY' HEADMASTER

A small group of Welsh dissidents have been refusing to allow their children to attend school in protest at the recent appointment of a non-Welsh speaking headmaster at Brynrefail Secondary School.

Ai dyma fydd 'Eco'r Wyddfa' y dyfodol?

y capeli a'r eglwysi, y gwaith; wrth siopio, yn ystod gweithgareddau hamdden ac yn y blaen.

Unwaith y mae maes defnyddioldeb y Gymraeg yn cael ei gyfyngu, yna cyflymaf yn y byd yw'r dirywiad, oherwydd mae gwerth ymarferol yr iaith yn cael ei ddibrisio. Canlyniad yr ymchwil diweddaraf hwn felly, yw dangos fod y 'critical tipping point' hwn eisoes wedi cyrraedd o fewn ein bro, ac na fydd gwerth ymarferol i'r Gymraeg yng nghymunedau Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug erbyn y flwyddyn 2001 os pery'r raddfa dirywio presennol.

Mae'r arwyddion yn bod eisoes.

Faint o Saesneg sydd i'w glywed ar fuarthau ysgolion cynradd y fro? Sawl plentyn o aelwydydd Cymraeg sy'n dewis (neu'n cael ei orfodi) i ddilyn pynciau drwy gyfrwng y Saesneg yn yr ysgol uwchradd? Sawl gwasanaeth dwy-ieithog neu hyd yn oed uniaith Saesneg a gynhelir yng nghapeli ac eglwysi'r fro? Efallai fod hyn yn fwy perthnasol



i'r Eglwys yng Nghymru o gofio'r trafferthion diweddar ym Meddgelert. Sawl siopwr di-Gymraeg sydd o fewn ein bro? ystyriwch, er enghraifft, Swyddfeidd Post yr ardal.

Byddai'n ddiddorol pe bai

rhywun ym mhob pentref yn anfon gwybodaeth i'r 'Eco' e mwyn i ni geisio crynhoi'r cyfan a chael golwg ar y fro yn ei chyfanrwydd.

GWYNEDD 1991



CYNNAL IAITH A DIWYLLIANT

Mae'r arolwg yn diweddu drwy ddatgan mai ym mhentrefigwledig Cymru y mae'n bosibl cynnal a chefnogi'r iaith oherwydd y traddodiadau diwylliannol cryf a berthyn iddynt.

Ond os yw'r iaith am barhau'n iaith-bob-dydd yr ardaloedd rheini, yna mae'n rhaid wynebu a datrys problemau eraill - gwaith a chartrefi i Gymry Ifanc o fewn ein cymunedau. Ac y mae honno yn y bôn, yn broblem wleidyddol, ac yn broblem y dylai pob plaid fod yn ymgodymu â hi ar fyrder.



DINORWIG

Gohebydd: Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Ein harfer yw dymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr yr 'Eco' pan yn cyflwyno rhifyn cyntaf y flwyddyn.

MARWOLAETH: Cyn i'r flwyddyn ddiwethaf ddirwyn i ben, fe ddaeth cryn ddigalondid i ran Capel y Bedyddwyr, Sardis. Achos y tristwch oedd marwolaeth sydyn Mr Gwilym Griffith Jones, Y Foel. Roedd rhai wedi sylwi bod y diweddar fraidd mewn cryn wendid, ond roeddem yn methu sylweddoli bod y diwedd mor agos. Fe gawsom wasanaeth ffyddlon ganddo ar yr organ yn Sardis, ac yn naturiol edrychem ymlaen am gael mwynhau y gwasanaeth hwn am gryn sbel eto. Roedd yr ymadawedig wedi meithrin y ddawn i ddeall ystyr yr emyn donau a genid, ac fe allai briodi emyn a thôn i amlygu'r ystyr hwn. Fe fu'n ymarfer yn gyson i gyrraedd y safon uchel hwn o ddirnadaeth, ac ar ôl i'r rhai hyn a fu o'i flaen gael eu galw at eu gwobr roedd yntau'n gwbl aeddfed i gymeryd drosodd.

Fe adlewyrchodd y golled yng nghyfarfod olaf rhan gyntaf tymor ein Cymdeithas Ddiwylliadol Undebol. Ein harfer ers tymhorau bellach yw defnyddio'r noson hon fel cyfle i ganu carolau ac emynau Nadolig. Y tro yma fe gollwyd cwmni nifer oedd yn perthyn i'r teulu a wynebair brofedigaeth, o'r cyfarfod a gaiff gefnogaeth y mwyafrif fel rheol. Eto i gyd, fe gafwyd noson gymeradwy o gofio bod cymylau tristwch uwchben, ac nid anghofwyd bod cysur a llawenydd ynghlwm yn y carolau. Neges o lawenydd, cofier, oedd gan yr angylion i'r bugeiliaid ar feysydd Bethlem ac fe deimlwyd y llawenydd hwnnw yn ein hoedfa. DIFROD: Ar drothwy'r Nadolig fe gafwyd gwyntoedd ffyrnig ac fe wnaed difrod ar do capel Sardis, ond fe fuom yn ffodus i gael cyfaill sydd bob amser yn barod i wneud adgyweiriadau gyda'r canlyniad ei bod hi'n anodd canfod lle bu'r difrod. Fe achoswyd difrod i nifer o dai yn yr ardal yn ogystal, a hynny'n galw am adnewyddu llechi ar doeau a 'ridge tiles' yma ac acw. Fe ddaeth gweithwyr y cynghorau i ofalu am yr adgyweiriadau.

GLYN RHONWY: Mae'r cyfaill Mr Glyn Thomas ac eraill yn ein

hatgoffa'n barhaus o'r ymdrech i gadw'r siawnsfentrwy i ffwrdd o Glyn Rhonwy. Haedda bob cefnogaeth i'w ymdrech i gadw'r lle rhag cael ei lygru.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Ar ôl i ni gerdded ymlaen i'r flwyddyn newydd fe ddechreuodd ail ran ein cymdeithas undebol gyda cwrdd gweddi dechrau'r flwyddyn. Fe gafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan gyfeillion o Dinorwig (M.C.), Sardis (B), ac Eglwys St. Mair. Roedd hwn yn gychwyn delfrydol i ail hanner y tymor.

PROFEDIGAETH: Fe hysbyswyd Miss Salome Jones (gynt o 6 Bro Elidir) bod ei chwaer Mrs Margaret Clerk wedi colli'r dydd yn Lerpwl. Derbynied hithau ein cydymdeimlad diffuant, a theulu'r Foel pan mae angau'n cipio anwyliaid i ffwrdd.

DIOLCH: Dymuna Teulu y diweddar Mr Gwilym Griffith Jones, Foel Farm, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn y brofedigaeth chwerw a ddaeth i'w rhan. Diolch am y cardiau, y llythyrau a'r galwadau ffôn oedd yn rhy niferus i'w hateb yn bersonol.

DYMUNA Miss Salome Jones (gynt o 6 Bro Elidir) ddiolch o galon i'w ffrindiau o'r fro am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer - Mrs Margaret Clerk, Lerpwl. Diolch hefyd am y rhoddion mewn arain a gyfrannwyd at 'Gofal yr Henoed' (Age Concern).

BLWYDDYN NEWYDD: Pan ddechreuwn ar flwyddyn newydd fe ddaw i'n meddwl ymadrodd o gyfnod pryd yr oedd yr Hen Genedl (sef yr Hebreaid) yn ffoi o'r Aifft gyda Pharo a'i luoedd yn eu hymlid. Yr ymadrodd yw: 'Ni thramwyasoch y ffordd hon o'r blaen', - arwydd wrth gwrs o brofiadau newydd tra'n ymadael â gwlad eu caethiwed. Rhaid oedd iddynt feddwl yn wahanol a throsi i ddull gwahanol o fyw, er y rheidrwyd i grwydro yn yr anialwch a chael eu paratoi i ymgymeryd â chyfrifoldeb. Roedd Moses yn annog anturio ymlaen. Mae'r un peth yn wir i ninnau heddiw - anturiaeth yw'r flwyddyn newydd.

CYFARFOD BLYNYDDOL: Bydd Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan yn

cael ei gynnal yn y Ganolfan ar nos Fawrth, Chwefror 6, am 7 o'r gloch. Mae croeso i bawb ddod i'r cyfarfod pwysig hwn.

SGETSUS: Cafodd amryw gymaint o fwynhad yn paratoi ar gyfer y gystadleuaeth sgetsus ar gyfer yr Eisteddfod ym mis Rhagfyr fel bod dymuniad yn awr i ddod a chriw at ei gilydd unwaith yn rhagor i ymarfer dau neu dri o sgetsus ar gyfer eu perfformio yn y dyfodol agos. Felly os oes gennych ddiddordeb yna dewch i'r Ganolfan am 7 o'r gloch nos Lun, Chwefror 12. Cofiwch mai cael hwyl yw y nôd. Croeso cynnes i bawb.

CLOCH Y GANOLFAN: Am y tro cyntaf ers blynnyddoedd maith mae'n dda gallu adrodd bod hen gloch y Ganolfan wedi cael ei gosod yn ôl yn ei lle. Syniad Mr Dave Wood o Fron Heulog oedd gwneud hynny, ac ef gafodd y ffrainc o'i chanu i groesawu y flwyddyn newydd. Diddorol fyddai cael gwybod pa bryd y canwyd y gloch am y tro diwethaf. Yn ôl rhai digwyddodd hyn yn y tri degau. Oes rhywun yn gwybod yr ateb? Byddai'n ddiddorol cael gwybod cyn daw y rhifyn nesaf o'r Eco allan.

TAN Y COED

Gohebydd: Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn 872 276.

LLONGYFARCHIADAU i Beverley Ann Roberts, Awelfryn, am lwyddo ei Gradd 5 mewn arholiad piano. LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs M. J. Roberts, Tai Newyddion, ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab i'w merch Margaret a'i gŵr, William.

ADREF O'R YSBYTY: Da gennym glywed fod Mrs Jeannie Hughes, Oerddwr, wedi dychwelyd adref o'r ysbty.

YR YSGOI SUL: Bore Sul, Rhagfyr 17, derbyniodd plant Ysgol Sul Tan-y-Coed anrheg o arian yn lle Te Parti. Yn y prynhawn, cafwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant. Er gwaethaf y fflw daeth y plant ynghyd a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan bob plentyn oedd yn bresennol. Y cyfeilyddion oedd Mrs Sharon Blanchard ar y gitâr, Miss Maïon Llwyd Evans a Beverley Ann Roberts ar y piano. Rhoddwyd yr anerchiad gan y Parch John Morris.

GWASANAETH NADOLIG: Bore Sul, Rhagfyr 24, yng Nghapel Hermon, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig undebol. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Annwen Parry, Beverley Ann Roberts, Sara Roberts, Anna Watterson a Kelly Louise Roberts.

DAMWAIN: Drwg gennym glywed fod Mrs M. Owen, Isbryn, Tai Trefor gynt, wedi cael damwain a thorri ei chlun. Dymunwn wellhad buan iddi.

MARWOLAETH: Ar Ionawr 11, bu farw Mrs Elizabeth Jane Ellis, gynt o 3 Tai Bryngwyn, Llanrug, ar drothwy dydd ei phenblwydd,

Ionawr 16, pryd y byddai wedi bod yn 91 oed.

Llys Eiddon, Llanrug, fu cartref Mrs Ellis y blynnyddoedd diwethaf, wedi i lesgeidd a gwaeledd ei goddiweddu.

Bu'r anglad ddydd lau, Ionawr 18, cyhoeddus yng Nghapel Tan-y-Coed, a phreifat yn Amlogfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parch John Morris a'r Parch W. O. Roberts. Y cyfeilydd oedd Mrs Violet Blanchard.

Bu Mrs Ellis yn aelod ffyddlon o eglwys Tan-y-Coed ac o'r Ysgol Sul, yn gymydog a ffrind caredig.

Y mae cydymdeimlad yr eglwys a'r ardal â'i mab a'i merch yng nghyfraith, Mr a Mrs Tom Ellis, a'i wyrion a'i wyres a'r teulu oll yn eu galar.

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth



ANTUR WAUNFAWR

I weled ein crôg fasgedi - a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

CANOLFAN ARDD
ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu - a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

- * GRUG
- * ALPAU
- * PERTHI
- * LLYSIAU

Arwel Roberts
3 Erw Wen,

CAEATHRO
673014



GLANHAWR
SIMNE

Os yw'r llwch yn y simne
Yn drwch uwch y tân
Down atoch â phleser
I'w sgobo yn lân

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

CRONFA APÊL LOWRI



Rhian Jones a Betty Owen yn cyflwyno sic i Mrs Beryl Roberts, Penbont, Llanrug.

CRONFA APÊL LOWRI: Drwy raffl a drefnwyd gan aelodau o'r gangen leol o Sefydliad y Merched, gwnaed elw o £191 tuag at Gronfa Apêl Lowri. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Yr enillwyr oedd: Rhian Owen, Deiniolen (hamper); Jennie Hughes, Brynrefail (cacen); Gareth Jones, Bethel (siocled) a Raymond Pritchard, Caernarfon (planhigyn). EGLWYS M.C. BRYNREFAIL: Noswyl Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth ar ffurf Cerdd a Charol i ddathlu'r Wyl dan nawdd aelodau ac ieuencid yr Eglwys.

Cyflwynwyd y cerddi gan Einir Gwyn a Hefin Jones, Carol Houston, Owain Gwyn, Betty Owen, Dafydd G. Ellis, Ifanwy Jones, Lowri P. Roberts ac Eirlys Williams. Cafwyd datganiadau llafar gan Pat Jones, Nicola Houston a Marian Jones a chymerwyd rhan mewn darlleniadau o'r Ysgrhythur gan Maurice Jones, Richard W. Evans, Jennie A. Roberts a Bertie Roberts. Cyflwynwyd myfyrdod ar yr Wyl gan Annie May Williams. Arweiniwyd mewn gweddi a thraddodwyd yr anerchiad gan y

Gweinidog, y Parch John Morris. Canwyd yr unawdau gan Catrin Gwyn ac Euronwy Roberts a chyflwynwyd y carolau cynulleidfaol gan Einir Owen, Dilys Morris, Mair Davies a Jennie Hughes. Llywyddwyd y cyfarfod gan Gwyn Hefin Jones a'r organydd oedd Lowri P. Roberts. Anfonwyd dymuniadau da yr Eglwys at yr oll o'r aelodau dros yr Wyl ac i'r flwyddyn newydd.

Neilltuwyd yr oedfa fore Sul, Ionawr 14, i ofyn am fendith ar ddechrau blwyddyn. Cymerwyd rhan yn y Cyfarfod Gweddi arbennig hwn gan y Gweinidog, Y Parch John Morris ynghyd â'r blaenoriaid, Mrs Jennie A. Roberts, Mr Richard W. Evans a Mr Bertie Roberts. Llywyddwyd y cyfarfod gan Miss Lowri P. Roberts ac estynnwyd croeso cynnes i'r Parch a Mrs John Morris, Rhys a Llŷr i'r oedfa tra'n datgan y llawenydd o'u derbyn yn aelodau yn yr Eglwys.

Yn yr oedfa brynhawn Sul, Ionawr 21, gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Gweinidog gan ddilyn y ffurf newydd ar yr ordinhad a argymhellir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Balch oeddym o weld Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, yn bresennol yn y gwasanaeth, wedi cael adferiad iachyd ar ôl cyfnod yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd. DIOLCH: Mae ein diolch yn ddifffuant i Mr Evan Roberts, 7 Afon Rhos, Llanrug, a Mr Dennis Jones, 11 Trem Eilian, a'i gynorthwyyr am eu cymwynas barod yn dosbarthu bwyd y Gymuned Ewropeaidd i henoed y pentref yn ystod yr wythnosau diwethaf.

PRIODAS RUDDER: Longyfarchiadau i Mr a Mrs Wilbert Williams, Marino, ar ddathliad eu priodas ruddem ar Ionawr 11.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Rhagfyr 11, mwynhaodd aelodau'r gangen eu cinio Nadolig blynyddol yng Ngwesty Tŷ Uchaf, Talybont.

Yng nghyfarfod nos Lun, Ionawr 15, croesawyd Mr a Mrs Stephen Darlington fel gwesteion y noson. Drwy gyfrwng sleidiau a sgwrs, rhoddodd Mr Darlington a fu'n ffermio am dros ddeugain mlynedd ym Mhlas Isaf, ger Abergele, adroddiad diddorol sut y bu iddo ddatblygu diddordeb oriau hamdden o addurno metalaau, nes dod yn grefftwr cydnabyddedig mewn siasio copr ac arian. Mae'n

cynnal arddangosfeydd led-led y wlad ac wedi derbyn dros y blynyddoedd nifer helaeth o gomisiynau i greu tlysau arbennig fel anrhegion a gwobrau mewn sioeau cenedlaethol o fri. Cafwyd cyfle i werthfawrogi enghreifftiau o'i gynnyrch. Diolchwyd iddo ar ran yr aelodau am ei gyfraniad gan Mrs Carol Houston. Paratowyd paned gan Mrs Rhian Jones a Mrs Carl, Houston. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Eleanor Williams, gan Mrs Mai Parry.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Chwefror 19, pryd y disgwylir Gwenno Caffell i roi sgwrs ar y testun 'Llechi Cymru wedi ei cerfio'.

Trefnir y Cinio Gŵyl Ddewi blynyddol ar gyfer nos Lun, Mawrth 5.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLLEN

Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon LLANRUG
Caernarfon 3513



CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★ 28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★ 2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★ Gwres canolog llawn
- ★ Sustem ddiogelu rhag tân
- ★ Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★ Sustem alw nyrs
- ★ Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★ Lle bwyta mawr
- ★ Aros cyfnod hir/byr
- ★ Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★ Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★ Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★ Coginio cartefol
- ★ Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★ Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

ECO'R IFANC

LLIWIWCH Y LLUN

- 1 - COCH
- 2 - GLAS
- 3 - OREN
- 4 - BROWN
- 5 - GWYRDD TYWYLL
- 6 - PINC
- 7 - GWYRDD GOLAU
- 8 - MELYN



CORNEL JÔCS

Beth ddywedodd yr estron wrth y pwmp petrol?
Tyn dy fys allan o dy glust pan fyddai'n siarad hefo ti !!!

Be' ti'n galw dafad sy' heb goesa' na phen?
Cwmwl !!!

Wil: Hei, Mr Gyrrwr Tacsî, faint fyddai'n gostio i chi fynd â fi i'r orsaf?

Gyrrwr Tacsî: Pum punt, syr.
Wil: Beth am fy nghês i, faint gostith hwnnw?

Gyrrwr Tacsî: Hanner can ceiniog, syr.

Wil: Wel, ewch â nghês i ta. Fe gerdda i !!!

Pam llyncodd y bachgen 67c
Ei bres cinio oedd o !

Doctor! Mae Dic wedi llyncu bwled! Beth wna i?
Wel, peidiwch â'i bwyntio fo ata i !!

Ho ho! Ha ha!

Beth gewch chi wrth groesi afal a gefel?
Afal sy'n gafael !!

Nesa! O, bore da, eisteddych.
Ych! Beth ydy'r ploryn mawr 'na ar eich gwddw?
O, mae'n ddrwg gen i, eich pen chi ydy o !

Beth sy'n felyn ac yn wyn ac yn cael ei fwyta ar gyflymder o 60 m.y.a?
Brechdan wŷ ar drên!

Beth fydd cybydd yn ei wneud pan fydd y tywydd yn oer?
Eistedd wrth gannwyll!

Beth fydd cybydd yn ei wneud pan fydd hi'n oer iawn?
Cynnau'r gannwyll!!

Doctor, doctor, rwy'n meddwl mai pelen snwcer ydw i.
Wel, dowch allan o fy mhoced i'r funud 'ma!!


Ha ha! Ho ho!

Dora: Rydw i'n dod o deulu cerddorol iawn, iawn, iawn Dic!
Dic: Ew, wyt ti wir, Dora?
Dora: Ydw, roedd fy nhad yn gallu canu'r piano hefo'i glust!
Dic: Ew, dyna dda Ddora. Ond dydy o ddim cystal â fy ewyrth i.
Dora: Sut felly, Dic bach?
Dic: Roedd o'n gallu ffidlan efo'i farf !!

Be' 'di'r gwahaniaeth rhwng dyn tân a soldiwr?
Fedrwch chi ddim dipio dyn tân yn eich wŷ!!

Diolch i Iolo Roberts, Guto Siôn a Meleri Mair (6 oed) o Lanrug am rai o'r jôcs yma! Diolch blantos.

EWCH O DDOT I DDOT



CYSTADLEUAETH MIS CHWEFROR

Lliwiwch y llun yn ofalus a'i anfon i'r 'Gornel' erbyn Chwefror 20. Bydd gwobr am y llun gorau. Cofiwch hefyd anfon eich storïau, cerddi neu jôcs i'r 'Gornel', Eco'r Ifanc, Pant Bryn Gwyn, Tan-y-Coed, Llanrug.


Peidiwch anghofio rhoi eich enw, oed a'ch cyfeiriad wrth anfon eich gwaith!!

Pob hwyl i chi!!

ENW:

CYFEIRIAD:

Oed:



ANFFAWD BEN Y CI

Hir y cofir dydd Sul cyn y Nadolig
Gyda'i lifogydd a'i wyntoedd mileinig
Chwythwyd llechi oddi ar dai a capeli
A dymchwelwyd coed a siediau yn stridedi.

Trowyd ein ffyrdd yn afonydd a llynau
Beth arall sydd i'w ddisgwyl, a'r ffosydd ynghau
Golchwyd ymaith pob hen sgerbwd
Yn nerth rhyferthwy y Galedffrwd.

A Ben y ci yn ei anwybodaeth
Syrthiodd iddi yn ysglyfaeth
Fe'i golchwyd yntau o'r golwg gan rym y lli
A Sus yn ei gofid ffarweliodd â'r ci.

Aeth draw i Rydfadog i ddweud am y drychineb
A rhyngddi hi a John, gwnaethpwyd cytundeb
I chwilio am Ben, o barch i'w ffyddlondeb
Yn athrist a diobaith, cychwynwyd ar y daith
Ond po dywyllaf yr awr, daw gobaith yn ffaith.

Ar lwybr yr afon islaw Pont Felin
Pwy welwyd yn anterth y drycin
Yn dod i'w cyfarfod, tan ysgwyd ei gynffon
A codi ei droed, ond Ben yr hen gi ffyddlon
Yn iach o'r dyfroedd mawrion
A balchdra'n llenwi ei lygaid gloywon.

Honnir bod naw bywyd i'r gath
A yw yn wir am y ci yr un fath?

H. J.

MELLTITH Y FFLIW

Y mae wedi dechra eto eleni
Yn fuan r'ôl Eisteddfod Gwaun Gynfi
Yn hollol ddifoes, ar draws pob peth
Mae hwn yn gyson ddifeth.

Yn ddigywilydd daw heb ei ofyn
I'n poeni fel hyn bob blywddyn
Un peth amdano pan ar ei rawd
Yn ei dro, daw heibio pawb.

Fe'i cewch yn y pen neu ar y frest
S'dim ots pa un dynnai orchest
Fe wna i chwi beswch, chwysu a chrio.
A twrw'n y frest fel wyau'n ffrio.

Cur pen a tisian fel cath
Ac i waelod y cefn, daw aml i frâth
Diferu wna'r trwyn, mae mynd ar y tisiw
I goroni'r cwbl, cawn ddolur gwddw.

GWIRFODDOLI gall rhywun ei wneud

OS OES GENNYCH YCHYDIG O
ORIAU I'W SBARIO BOB WYTHNOS?

Hoffech chi helpu unigolyn i fwynhau
gweithgareddau hamdden megis nofio,
mynd i weld ffilm, chwarae snwcer, mynd
am dro? Mae nifer o bobl fyddai'n hoffi
cael y cyfle i fynd allan unwaith yr wyth-
nos, ond mae nhw angen cefnogaeth
ffrind i wneud hyn.

GALLWCH CHWI FOD
Y FFRIND HWNNW?

cysylltwch â: Donald Roberts

Tîm Cymunedol Anfantais Meddwl
Castle House, Stryd y Castell,
Caernarfon
Ffôn: Caernarfon 4121 Est. 2304

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Caernarfon 3536

PARTI NADOLIG Y PENTREF: Er
gwaethaf salwch a chystadleuaeth
cynhaliwyd Parti Nadolig
llwyddiannus o dan nawdd y
Pwyllgor Cae Chwarae yn y bar
bach yng Nglangwna. Enillwyr y
rafflau oedd: tocynnau gwyn - Dr
Parry Jones, Eifion Hughes, Deiniol
Huws, Frank Henderson, Rhys
Jones; tocynnau pinc - Margaret
Lovell, Cathy Hughes, Mrs
Southall, Marian Huws, Edwina
Huws, Marion Jones; tocynnau
melyn - Heather Jones, Ifor
Hughes, Margaret Lovell, Clive
Jones, Sarah Hughes.

Ar ôl bwyta bwffe bendigedig
roedd ansawdd y canu ac
amrywiaeth y caneuon yn well o
lawer na nifer y canwyr gyda

phawb yn llawn hwyl yr wyl.
Rhoddwyd anrhegion bach i bawb
oedd heb ennill gwobr raffl. Bydd
enillion y noson yn mynd tuag at
dal am goeden Nadolig y pentref,
parseli Nadolig y pensiynwyr a
chostau seindorf Llanrug gogyfer
a'r canu carolau.

CANU CAROLAU: Daeth Seindorf
Llanrug, daeth cyfnod sych rhwng
y cawodydd trymion, a daeth yr
ifanc, yr hen ac o bell. Ond ni
ddaeth y canol oed. Lle oedd pobl
Caeathro? Beth bynnag, roedd
hynny oedd yn bresennol yn medru
mwynhau canu carolau'r Nadolig
yng nghanol y pentref. Diolch i'r
Band a'r ffyddloniaid. Gobeithiwn
am well cefnogaeth y Nadolig
nesaf.

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd
cyfarfod o Gyngor Cymuned
Waunfawr yn y Ganolfan, nos Lun,
Ionawr 15. Ym marn y Cyngor nid
oedd yr wyneb newydd ar y
briffordd trwy'r pentref yn ddigon
da. Mae'r Cyngor Sir yn
ymgyngori gyda'r heddlu ynglyn
â chyfyngu parcio wrth yr hen
bost. Gan fod pobl anghyfrifol yn
gadael sbwriel o hyd ger mynedfa
Glangwna o lôn Pontrug, ceisiwn
gael giât i'r cae ac arwydd yn
gwahardd tipio.

Bydd hysbyseb yn y pentref cyn
bo hir yn gofyn am berson glanhau
i'r lloches bws yn y pentref.
Ceisiwn wella llwybr Prysgol
unwaith mae'r tywydd yn
caniatáu. Er mwyn gwneud i fyny
am y difrod a blerwch ger sgwâr
y pentref a achoswyd gan yr
ymgymerwyr ffordd, mae'r Cyngor
yn mynnu bod y Cyngor Sir yn
tacluso'r safle, atgyweirio'r difrod
ac ymestyn y cwrbiau a chwe
gardd ehangach o laswellt yng
nghyfeiriad Pontrug.

DIOLCH: Dymuna pensiynwyr y
pentref ddiolch i Bwyllgor y cae
Chwarae am y parseli Nadolig.

Y feddyginiaeth sy'n amrywiol a parod
At beswch, poen neu gryndod
Ffisig coch a llyncu tabledi
A diwrnod neu ddau rhwng plancedi.

Ninnau'n snwffian ac yn tuchan
Deisyfu wnawn am gael gwella'n fuan
Newid mae gwybodaeth a gorchestion
byd
Ond erys melltith anwyd gyda ni o hyd.

Brysiwch wella pawb fu dan y fflw
Ond tuan o'r rhai sydd eto'n y ciw.

H. J.

DRAENOG

Sut byddwch chi'n treulio Nos
Calan? Mae traddodiad newydd
wedi dechrau yn Llanrug yn ôl pob
sôn. Dyma'r patrwm yn fras:
1. Cynnig paned o dê i wr y tŷ
2. Rhoi'r tecell ymlaen
3. Syrthio i gysgu
4. Blwyddyn newydd ddrwg
A llond y tŷ o fŵg
5. Esgus prynu tecell newydd yn y
SALES am fod yr hen un wedi
toddi.

**YSTORFA MINFFORDD STORES**
**GAEATHRO
GAERNARFON**
YR HEN BOST 1887-1987 AR TYRPEG 1817-1886
Nwyddau Groser
Prynwyr a Gwerthwyr Hen Bethau

CYFLENWYR PORTHIAN
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAD ANWES
GWERTHWYR NWY
Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
Port Dinorwig 670439



LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir (871043)

GWOBR MARY ROBINSON I DYLAN



EGLWYS GADEIRIOL BANGOR: Bob Nadolig mae'r Gadeirlan yn rhoi gwobr Mary Robinson i dri aelod o'r Côr. Arweinydd y Côr yw Andrew Goodwin. Llongyfarchiadau i Dylan Jones, Gwesty Dolbadarn am fod yn un o'r tri a enillodd y gwobr yma yn Nadolig 1989. Da iawn Dylan. Deallwn dy fod wedi ennill gwobrau eraill hefyd.

LLONGYFARCHIADAU i Elizabeth Hughes, 2 Rhes y Faenol, ar ei dyrchafiad yn ysgrifenyddes y gwmni Rheilffordd yr Wyddfa a Maes Awyr Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Nellie Williams, Baladeulyn, am fod yn hen-nain i Stacey Louise.

DIOLCH: Dymuna Arwel a Janice, 1 Penmount, Pwllheli, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach Stacey Louise. Diolch yn fawr.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol: Mr Ted Pritchard, Padarn Road; Mr Gordon Williams, 11 Charlotte Street; Mr Bob Jones, Plas Pengwaith; Mr G. Roberts, Dol Elidir; Laura M. Thomas, merch fach Michelle ac Arfon, ac i bawb sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod y mis neu yn cwyno gartref.

DIOLCH: Dymuna Rita a Huw Morris, 26 Maes Padarn, ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ruddem ar Ionawr 14.

DIOLCH: Dymuna Gordon Williams, 11 Charlotte St. ddiolch i'w deulu, cymdogion a'i ffrindiau am bob caredigrwydd a dderbyniodd, y cardiau a'r llu galwadau ffôn a wnaethpwyd yn holi yn ei gylch, tra bu yn yr ysbyty. DIOLCH: Dymuna Peter a Sian Roberts, Stryd Goodman, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach.

DIOLCH: Dymuna Mrs Prydwen Pritchard, Alan a'r teulu oll, Tŷ Capel, Nant Peris, ddiolch i Glwb Llong Brydeinig Llanberis am drefnu'r 'Noson o Ganu' gyda Hogia'r Wyddfa. Diolch hefyd i Hogia'r Wyddfa ac i'r bechgyn ifanc am noson mor lwyddiannus.

DIOLCH: Dymuna Mrs Betty Hughes, Stryd yr Wyddfa ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn tra y bu yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd adref.

LLONGYFARCHIADAU i Marc Parry ar achlysur ei benblwydd yn un-ar-hugain oed yn ddiweddar.

DYWEDDIO: Llongyfarchiadau i Iorwen Jones, 60 Dol Elidir, a Brian ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar. Hefyd i Alison Pitt, 53 Dol Elidir a Colin ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i'r efeilliaid Colin a Barry Jones, Dol Elidir ar ddatlu eu penblwydd yn ddeunaw oed.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Mrs Catherine Parry, Alan a Tony a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid, sef Mr Twm Parry, Yankee Street. Hefyd i Jack Parry ac Olwen ar golli eu brawd. CYDYMDEIMLWN â Mrs Dwynwen Roberts, Ken, Joan, Eiddwen a Selwyn yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid, sef Mr William John Roberts, Coed. Hefyd ag Olwen ar golli ei brawd.

CYDYMDEIMLWN ag Eirian yn eu phrofedigaeth o golli ei mam, sef Mrs Gaynor Pritchard, Stryd Bethesda. Hefyd i'r teulu oll ar golli chwaer a modryb.

CYDYMDEIMLIR hefyd â Helen a Richard yn eu profedigaeth o golli brawd sef Ifan Jones, gynt o Lanberis.

NANT PERIS

Gohebydd: Ann Fleming, 'Dolwen', 8 Nant Ffynnon (871457)

LLONGYFARCHIADAU i Gwenno Davies (merch ieuengaf Mr a Mrs Robert Hugh Jones, gynt o Nant Peris) ar ei dyrchafiad i swydd 'Sister' yn Ysbyty H. M. Stanley, Llanelwly.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Phyllis Jones, 60 Dol Elidir, sydd wedi colli ei thad.

CAPEL CLEGIR 1989

Beth yw neges y dylluan
Sydd ar frig adenydd gwyn
Heno'n hedfan uwch Glyn Rhonwy
Dros y creigiau at y llyn.
Wle'r Capel bach yn ddistaw
Ni cheir carol ynddo mwy
Ni cheir emyn fach na gweddi
Ple mae'r plant, ple'r aethant hwy?

Beth yw neges yr hen lwynog
Sydd yn tyllu yn y fro,
A'r hen gigfran, beth ei neges
A'r lygodyn fach ar ffo.
Mwsog gwyrdd sydd ar y llwybyr,
Am na welir toed yn awr
Yn ymlwybro tua'r Capel
Heddiw'n fach, ond gynt fu fawr.

Os yw neges y Nadolig
Wedi mynd o'r Capel bach,
Gwelwn Seren uwch y fangre
Roddodd groeso i Faban iach.
Dyma'r eos heno'n canu
Dyma gelyn gwyrdd yn goch,
Dyma frwyn yn sisial ganu
Er mai distaw yw y gloch.

Wle'r afon fach yn rhedeg,
Dacw'r ffynnon yn rhoi dŵr,
Dyma folodau gwyllt yn tyfu
I glodfori o hyd y Gŵr
A gadd groeso yn y Capel,
A gadd groeso yn y gwair.
Hwn rôdd gymorth gwiw i'w bobl
I weld mawredd Baban Mair.

Awel dyner ben y mynydd
Ddaw a'i neges lân o hyd,
Fe ymleda trwy'r bydysawd -
Carreg-lefn yn nyfroedd byd.
Wle yma'r Seren ddisglair,
Seren Fore dynolryw
Seren danbaid uwch Glyn Rhonwy
Byth ni ddiffydd tra bo Duwl!

Dilys Baylis

LLONGYFARCHIADAU i Sian ac Andrew ar eu dyweddïad dros y Nadolig; hefyd i Sara Closs Davies ar basio arholiad piano Gradd 1, a Llinos Haf Jones sydd wedi pasio arholiad piano Gradd 7.

GWELLHAD: Dymunwn wellhad buan i Mrs Elizabeth Closs Roberts, 3 Tan-y-Bryn, ar ôl damwain yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN â Miss Eluned Owen, Dolwen, ar farwolaeth ei chyfnither Mrs Eunice Williams ym Mhorthmadog.

DIOLCH: Dymuna Siân ac Andrew ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur eu dyweddïad.

Hefyd dymuna Iwan ac Einir ddiolch i bawb am yr anrhegion ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321).

CYDYMDEIMLWN â Mrs Brenda Jones, Penhafodlas, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd, Mr Williams Jones, Caernarfon.

CAPEL CEUNANT: Cynhaliwyd gwasanaeth ieuencid y capel prynhawn Sul, Rhagfyr 24. Cymerwyd rhan gan Ffion Williams, Karen Jones, Nicola a David Jones a Dylan Parry. Yr oedd y gwasanaeth dan ofal y Parch John Morris.

DYCHWELYD o PERTH, AWSTRALIA: Balch ydym o groesawu yn ôl i'n plith Mr a Mrs Peter Baxter, Cynrig a Catherine ar ôl cyfnod o 18 mis oddi cartref.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

GWASANAETH FIDEO PROFFESIYNOL AR GYFER UNRHYW ACHLYSUR

- * Dyweddïad
- * Priodas
- * Pen-blwydd
- * Bedydd
- * Drama
- * Carnifal

Am fwy o fanylion
cysylltwch â
John Blight
LLANBERIS
872 209

GWYNETH ROBERTS 84 Stryd Fawr, Llanberis Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,

Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

GLASLYN ANTIQUES

STRYD FAWR, LLANBERIS

PRYNIR A
GWERTHIR

Hen Bethau, Darluniau
a Dodrefn y gorffennol

FFÔN:
LLANBERIS
870080



SPAGHETTI BOLOGNESE, SABRINA - A CHYMRU - AM BYTH!

Treuliodd Gari Wyn Williams o Glwt y Bont, gyfnod yn yr Eidal, y llynedd. A hithau'n gyfnod ar y flwyddyn pryd mae'r mwyafrif yn dechrau cynllunio gwyliau haf eleni, dyma gyhoeddi ei argraffiadau o'r wlad honno.

Dyma fi! Yn yr Eidal - gwlad spaghetti, pizza, llwyth o Fiat Pandas a, hogiau bach, digonedd o fodins handi. Ac mewn dau fis methu cael bachiad - dim ond un rwyf eisiau - dw i ddim yn farus. Dwi'n gwybod lle dw i'n methu - nes i adael y Gucchi, trowsus a crys Armani yn yr atic yn Llanbabo. Erbyn rwan mae'n siŵr mae Gwil Tate wedi cael gafael arnynt - gŕ nos Sadwrn yn y Tarw.

Roeddwn wrth fy modd trafaelio o gwmpas y wlad, mynd o dow i dow, cyfarfod llwyth o ffrindiau newydd. Yr wythnos gyntaf roeddwn yn bwyta'n dda - pizza i ginio a spaghetti i de. Rhywbeth hollol newydd i fi. Ar ôl tair wythnos o pizza a spaghetti, pizza a spaghetti fuaswn yn barod i weiddi 'Roma AFC am byth' yng nghanol sgwâr Milan am baced o sglodion Gwyn Oliver (jôc, Gwyn!).

Pasta yw'r peth rhataf i fwyta yma - mae popeth arall yn ddychrynlyd o ddrud. £2 am baced o fisgedi siocled. Wnai adael nhw eu bwyta eu hunain.

Rwan, pan dwi'n mynd yn ôl i'r fflat gyda'r nos, a dw i'n gwybod dim ond pasta sydd yn y cwpwrdd tlawd yna, rhaid dweud mae'n gallu bod yn ddigalon. Felly, i wneud yr amser bwyta yn ychydig bach mwy diddorol, dw i'n coginio pasta gyda siâp gwahanol bob dydd. Yfory yr hen bethau crwn yna, dydd Iau y pethau sgwigli ... ac wedyn cyrraedd cinio dydd Sul, y diwrnod mawr cysegredig. Duw fuasai tamaid o Pizza yn mynd i lawr yndda. Ychydig o wahaniaeth.

N.B. Mam, peidiwch â phoeni, dw i'n bwyta dau ffrwyth a trôns glan bob dydd.

* * *

Mae'r Eidalwyr yn bobl cynnes a bywiog. Yn barod i fy nghywiro bob tro dw i'n gwneud gamgymeriad. Mewn pob un bar o gwmpas y wlad mae'r hogiau a merched wrthi yn sgwrsio am y gem peldroed cynharaf. Mae'n anhygoel gweld merched gyda diddordeb mawr mewn peldroed. Mae yna bob tro esgus mawr meddylol pan ddaru Milan golli - Ruud Gullit heb fwyta'i Rice Krispies cyn y gêm neu y gôl-geidwad efo hiraeth mawr am ei fodan. Cant a mil o esgusodion. Yma mae ganddynt bum papur dyddiol yn unig ar sbort.

* * *

Yn y pythefnos cyntaf roeddwn yn lwcus, nes i ddod o hyd i waith mewn 'ristorante' ar Lyn Como sydd yn agos i'r cyffin â'r Swisdir.

Roeddwn ar ôl diwrnod hir o drafaelio wedi darganfod doedd dim lle yn yr hostel - yr Almaenwyr wedi cymeryd drosodd fel arfer. Roedd y gwestai i gyd yn orlawn, felly yr unig ddewis yn agored i fi oedd chwilio am le bach clyd yn y mynyddoedd. Felly, ffwrdd â fi gyda fy nhŷ ar fy nghefn. Ar ôl dringo bryn yn debyg i allt Sarn roeddwn yn gwybod fuase wedi bod yn well gadael y sinc adref.

Ar ôl dipyn o chwysu nes i gyrraedd ryw bentref bach - tua 15 o dai. Dyma'r hen wreigen yma yn golchi ei dillad yn yr afon yn dechrau sgwrsio gyda fi. 'O lle rwyf ti'n dod?' meddai. Yr ateb 'O Gymru'. 'Lle?' meddai. Dyma fi'n dweud 'gwlad sydd yn rhan o Brydain Fawr.' Dyma hi'n ateb lland ei cheg 'Felly Saesneg wyt ti?' Yn frysio iawn nes i estyn y map a dangos iddi Gymru, Lloegr a'r Alban. Ar ôl yr

eglhurhad yma ddaru hi edrych yng nghanol fy llygaid gan ddweud 'Wyt ti ddim yn tynnu fy nghoes wyt ti?' Roedd hi'n meddwl Prydain Fawr yw Lloegr. Ar ôl y sgwrs reit hwylus ddaru hi fy rhybuddio i fod yn ofalus wrth gysgu allan 'Mae'r nadroedd yn gallu bod yn flin yn y tywydd poeth yma'. Diolch yn fawr - am fy nychryn!

Erbyn rwan roeddwn yn chwysu fel ci ar ôl y sgwrs fach yma, yr holl gerdded, ac wedyn y newyddion am fy nghwmni annisgwyl gyda'r nos.

Felly roedd rhaid cael diod - lwcus roedd yna 'ristorante' yn agos. Mewn lleoliad braf - golygfa brydferth o'r llyn a'r mynyddoedd ar gael. Yn union fel Llyn Padarn o Fachwen - codi hiraeth mawr arnaf. Felly aeth y gwin i lawr fel mêl. Nes i ddechrau siarad gyda'r genod oedd yn gweithio yna. Son am fy mhroblemau a ballu - methu dod o hyd i le i aros. Roeddwn yn gallu gweld fod ganddynt bechod mawr dros y Cymro bach yma, ar goll. Ddaru Emanuela, calon o aur, adael i fi aros yn ei fflat - yn y bore nes i olchi llond sinc o lestri iddi. Cefais aros yno am bedwar diwrnod arall yn dysgu Saesneg i'r hen hogan.

Sylweddoli fy mod yn crwydro o gwmpas Domaso yn gwneud dim byd bob dydd, ddaru nhw gynnig gwaith i mi yn y 'ristorante'. Grêt, lle i aros a bwyd am ddim. Iawn!

Felly am y pythefnos nesaf fi oedd y boi oedd yn coginio'r stêcs, golchi'r gwydrau, paratoi'r salad, rhedeg i nôl mwy o fara i'r Almaenwyr, setio a chlirio'r byrddau. Roedd yn wahanol!! O leiaf cefais le da i aros, bwyd da ac awyr iach. Hefyd roeddent yn golchi a smwddio fy nillad - adref o adref bron iawn!

Bob noson ar ôl gweithio roeddwn yn mynd i lawr i'r Bar Centrale (fel y Tarw yn Llanbabo) yn pentref Domaso gyda Emanuela a Marianna. Yna roeddem yn sgwrsio dros gwydriad neu ddau o win. Roedd yr hogiau yna yn llawn o jôcs - ddim yn gall. Roedd pawb yma hefyd ddim yn gwybod lle mae Cymru - 'Saesneg wyt ti', medda nhw. Roeddwn methu coelio'r peth! Dyma fi wedi cael llond bol yn dechrau siarad Cymraeg - dyma nhw'n gweiddi 'Porca miseria - Cig porc tlawd (fel 'Mam bach') 'Mae'n hollolwahanol i Saesneg'

meddant mewn syndod. Roeddent yn meddwl mai sir o Lloegr yw Cymru a dim ond Saesneg oedd yn cael ei siarad. Rwan maent yn gwybod yn wahanol ac ychydig o Gymraeg - fel 'Iechyd da' ar ei ben ei hun, heb y rhan gorau, a 'Wyt ti eisiau peint arall?' Yr ateb fel arfe oedd 'Dim diolch'. Mae'r cwrw yn giami yma ac yn ddrud, £1.50 am hanner o lager. Felly roedd rhaid dod i arfer â'r gwin. Mae'n mynd i lawr fel mêl, ac mae'n rhad, 25 c am wydryn. Fedrwn i ddim disgwyl, na, dw i'n marw i gael peint o gwrw go iawn adref!

* * *

Ar ôl pythefnos yn Domaso roedd yn rhaid i fi adael. Roeddwn eisiau blasu yr haul a ballu i lawr yn Firenze (Florence), ac roeddwn wedi cael gwadd i aros yn tŷ fy ffrind da Deanna - wedi ei chyfarfod yn Llundain. Cefais groeso bythgofiadwy gan Deanna a'i theulu - fel roeddent yn fy adnabod ers deng mlynedd. Roeddwn methu coelio'r peth. Dw i erioed wedi bwyta cyn gymaint yn fy mywyd - tua deg cwrs mewn cinio dydd Sul.

Fuaswn wedi gallu mynd i gysgu yn hawdd gyda'r spaghetti yn dod allan o fy nghlustiau - yn orlawn. Ond roeddent eisiau dangos eu hardal i mi. Hardd iawn.

Tra roeddwn i yn mwynhau fy hun yn Suzzara a Firenze, roedd fy ffrind Fabrizio yn rhedeg i fyny ac i lawr Milano fel rhyw ddyn o'i go' yn chwilio am waith i mi. Ar y munud olaf, ddaru o ddod o hyd i waith i mi mewn Warws llyfrau.

Rwan oedd fy nhwrn i i redeg o gwmpas yn wyllt. Roedd yr ysgolion yn ail agor a'r myfyrwyr yn ysu i gael eu llyfrau newydd. Fy ngwaith i oedd casglu'r llyfrau oddi ar y silffoedd a'u rhoi i'r cwsmeriaid. Amser go hegar o'm blaen.

Roedd yr hogiau oedd yn gweithio yna yn gymeriadau a hanner - mewn wythno roeddent wedi dysgu i mi sut i regi yn dda, os oes ffasiwn beth, yn yr Eidal. Rwan dw i'n gwybod ei bod yn iaith liwgar a bywiog!

Ar ôl pythefnos o gega a dipyn bach o regi roeddent yn gwybod mai Cymraeg oeddwn a dim Saesneg. Yr hen stori yma hefyd. Wedyn roeddwn yn cael 'Ciao, buongiorno Gallese' 'Bore da, Gymro' ganddynt bob bore.

(i'w barhau ...)



CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Agor Ffiniau'r Gorffennol

COFIO TOM NEFYN WILLIAMS

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Cywydd Coffa Tom Nefyn

Ar faes rhyfel, heb elyn,
'E welwyd llanc o wlad Llŷn:
Yn niffeithwch llwch a llaid
Y drin, ym mwrwydr ei enaid:
A'r gwir ynddo'n herio'r gau,
Yno gwelodd y Golau.
Allan o wae erchyll nwyd
Peiriau uffern daeth proffwyd.

Proffwyd caeau a'r priffyrdd,
Enaid mawr yn hudo myrdd.
Mewn ffair, y mwyn offeiriad,
Denai dorf â doniau'i Dad.
Ymyrrwr rhag camwri
A swm y Groes yn ei gri.
Wylai dros gur dynoliaeth
A chroesau blin gwerin gaeth:
Y glwr a'i gyflwr gau,
Hen filwyr mewn hofelau.
Dygai heddi i gyfeddach
Â gwin ei fwyn organ fach.
Yng ngolau'r efengyllydd,
Yn was ei Dad nos a dydd,
Daeth nwyf i eglwys gwlad,
Bu annwyl gan bob enwad.

Trwy'i lef rhag dioddefaint
Gwyddai siom: digiodd y 'Saint'.
Blined oedd pwysau credo
Dwrn y farn roed arno fol!
Yntau fel clwyfus blentyn
O law mam wylai am hyn.
Ni chât heddi ond mewn gweddi,
A gras oedd byrdwn ei gri.
Er ei ddiwyd bardduo
Ni chât un ei wynnach o:
Angof fu pob diogfaint,
A'i friw a gyfrifai'n fraint.
O'i 'wyllys gref âi allan
Yn ddewr dyst, dros Dduw ar dân.

Hawdd iawn, i'w gyn-elynn o
I'w dduwioldeb oedd ildio:
A rhoi heb ystaen na chraith
Ddeheulaw iddo eilwaith,
Ni ellid gadael allan
Apostol y dwyfol dân
Purdan Duw! Pardwn dioed
I angel o rebel roed.

Ar ôl y cleifion yr âi
Heb atal i ysbytai:
Câi hanes un yn cwyno
Ar ei feic, i'w grwydr â fo.
Yno'n hwyr mynai aros
A'i gynnal wnaï ganol nos,
A'i fwyn wên bu'n ysgafnhau
Cur a chwerwedd carcharau.
I'r hen ar lwybrau annodd
Rhô'i fraich dan ei fraich o'i fodd.
Yn llaw'r cloff a llawer clâf
Gwelodd roi'i geiniog olaf.
Gwyddai gam drwy'i gudd gymorth:
Do, bu ei dŷ heb y dorth.
I roi, mynnai fynd ar ras
Ofer hanner cymwynas.

Wedi dwyn profiadau da
Aeth adfyd â gwlith oedfa.
Disgynnodd braw ar drawiad,
Daeth diwedd. Rhoes gledd i'n gwlad.
Y noddwr a'r rhoddwr hael
O Edern - wedi'n gadael.
Ar aelwyd 'Swper Olaf'
Heb ôl clwy, heb wely claf.

I was Iôn daeth gŵys ennyd,
Ffoi i'r ŵyl fawr; ffarwel fyd!
Prin awr wedi awr ei 'hwyl'
Llonydd yw'r cyfaill annwyl.
Darfu yr egni dirfawr,
A mud yw'r pregethwr mawr.
Dyddgwaith corff wedi'i orffen,
Rhan bywyd i'r byd ar ben.



Mwy na phrudd oedd gorchuddio
Yn y bedd ei wyneb o.
Dan graith, gruddiau llaith a llwyd
Y miloedd yma welwyd.
Gwerin i Sant yn gwyrô
Pob gradd yn ei angladd o.
Ac am wrol gymeriad
Uwch ei lwch, diolchai'i wlad.

Yn llaw Duw, llyw y diwedd,
Mwyn i fyd fydd man ei fedd:
Yma'n y llwch ym Mhen Llŷn,
Yma'n ofer? Tom Nefyn?

R. J. Roberts, Lerpwl.

Rhan o Awdl Goffa am Tom Nefyn

Darfu y dydd a'i ludded, - a darfu'r
Straen dirfawr diarbed:
I'r cwrdd fe ddarfu'r cerdded
Am Oen ei Dduw mwy ni ddwedd.

Ei organ fechan yn fud - y dwylo
A'r dalent mewn gweryd,
O'i hun ni chyffry ennyd,
Erys draw o gwr y stryd.

Mae y bedd lle gorwedda, - yr hoffus
Broffwyd wedi'r oedfa,
Yn sanctaidd dir, hir barha
I ddenu'r lluoedd yna.

Evan Griffith Hughes, Rhoshirwaun.

Er Côf am Tom Nefyn

Bu was gwir, heb seguryd,
- i'w Arglwydd
Dan eurglod ac adfyd:
Ac o'i bregethau i gyd
Y fwyaf oedd ei fywyd.

Y Prifardd William Morris.

CLWB FFERMWYR IFANC



Ar nos Fawrth, Tachwedd 21, Mr Glyn Jones oedd yr ymwelydd yn y clwb. Roedd Mr Jones yn dangos i ni sut i wneud cyflath. Cafodd pawb fag ohono i fynd adref gyda nhw.

Yr wythnos ganlynol, sef tachwedd 28, trefnydd newyd y sir, sef Gareth Huws oedd ein gwestai. Daeth â sleidiau o'i ymweliad â Phatagonia i ni. Roedd yn ddiddorol iawn gweld faint o Gymry oedd ar ôl yno, a mwynhaodd pawb eu hunain.

Ar Ragfyr 5, roedd rhywbeth gwahanol, sef Dawnsio Gwerin. Mrs Williams o Lanrug oedd yn ein dysgu. Doedd neb yn gwybod beth i'w ddisgwyl ar ddechrau'r noson, a doedd neb yn edrych ymlaen, ond erbyn diwedd y noson roedd pawb wedi mwynhau eu hunain er nad oedd ganddynt ddim egni ar ôl.

Ein gwestai ar Ragfyr 12 oedd Mrs Pat Jones. Dangosodd i ni sut i wneud addurniadau Nadolig gan ddefnyddio dail a chelyn. Ymunodd pawb yn yr hwyl drwy wneud tagiau ac addurniadau i roi ar y goeden.

Yn ystod y mis bu Aled Jones ac Eurwyn Jones yn rhoi torch ar ran y clwb ar Sul y Cofio, ac ar Dachwedd 15 bu Alwyn Jones, Elwyn Parry, Nia Lyn Jones a Nicola Griffiths yn cynrychioli'r Clwb mewn cystadleuaeth cwis Gwybodaeth Gyffredinol. Roedd y tim yn falch o gael dweud eu bod wedi dod yn ail.

Ar Ionawr 9 cafwyd cyfarfod cyntaf y Clwb ar ôl torriad y Nadolig. Ar y noson honno roedd Mr John Bumby yn ymweld â'r Clwb. Dangosodd sleidiau ar ddatblygiad peiriannau drwy'r oesoedd.

Yr wythnos ganlynol, sef Ionawr 16, Mr Mark Laming o swyddfa A.D.A.S. Caernarfon oedd y siaradwr. Roedd yn sôn am goedwigoedd a'r fferm a'r manteision sydd i'w cael ohonynt.

Ar Ionawr 17 cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus yn Ysgol Botwnnog. Roedd dau dim yn mynd yno i gystadlu, sef - Dan 16: Ruth Parry, Tudur Parry a Bethan Jones. Dan 21: Eurwyn Jones, Aled Jones, Nia Lyn Jones a Sioned Parry.

Gwnaeth y ddau dim yn dda iawn, a llongyfarchiadau i Bethan ar gael ei dewis i gynrychioli'r sir.

Bydd rhaglen lawn o flaen y Clwb mis nesaf, felly gobeithio y daw pawb i'r cyfarfodydd.



Mae ein cyfaill o Ffrainc wedi bod braidd yn hwyr yn anfon gwybodaeth i ni am griw go arbennig o'r fro hon a fu yno am drip yn ystod Hydref y llynedd. Ond mae'n werth cyhoeddi'r llun a rhai o gyfres hir o benillion a ysgrifennwyd ar y bws rhwng Angers a Paris gan Valmai Williams, Wolverhampton (gynt o'r Felinheli)

Ar draws y môr a'i donnau
Daeth criw o'r wreini gre
A llawer un a'i wyneb
Yn edrych tua'r ne
Roedd CLIFFORD bach yn giami
A IOLA'n swatio at HAF
Ond GWIL - wel dyna i chi longwr
Yn yfed wisgi'n braf.

Diolch i bawb ohonoch
Am wythnos hynod braf
I GWILYM REES a DAFYDD
A thanciwr mawr i HAF
Ac os daw'r awydd dros och
Am wyliau llawn o sbri
Rhowch ring i Kenneth Williams
A chwmni KMP'

DRAENOG



'Rhaid canmol Os a Jean, Llanrug
Wel pâr anfarwol, rhain,
Dychymyg gwych i'r ffansi dress
- Y ddau fel bwgan brain.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

LLONGYFARCHIADAU i Amranwen Lynch, Gwyddfor, ar ei hapwyntiad yn Ddirprwy Brifathrawes Ysgol Gynradd Llanrug.

Pob dymuniad da a phob bendith i Sioned Roberts, Tai Croesion, a Dylan Pierce Williams, Bryn Rhydd, ar achlysur eu penblwydd yn 18 oed ym mis Ionawr.

GWELLHAD: Gobeithio'n wir fod pawb a fu o dan y fflw wedi gwella erbyn hyn. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad buan i Mr Nathan Jones, Mrs Elen Williams, Mr Maddox, a Mr Idris Owen wedi triniaeth yn yr ysbyty. Gobeithio fod Mrs Katie Jones, 9 Bryntirion gynt, yn gwella hefyd. **YSGOL TAN-Y-COED:** Bu safon 3 a 4 yn lwcus iawn o gael cwmni Miss Caren Brown, myfyrwraig o'r Coleg Normal. Dymunir pob llwyddiant iddi yn y dyfodol. Hyfryd oedd cael croesawu Mark a Faye, Siop Gron, yn ôl atom i'r Ysgol ar ôl cyfnod yn y Ganolfan Iaith ym Maesincla. Mae'n braf eu clywed yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg gyda'r plant eraill.

Y mae'r staff a holl blant yr ysgol yn anfon eu cofion anwylaf at Eryl sydd yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

Fe ymyrrodd y fflw ar bob gweithgaredd Nadolig. Mwynhawyd cinio a pharti Calan yn ystod yr wythnos gyntaf o'r tymor hwn. Bu'n werth y disgwyl! Paratowyd cinio godidog gan staff y gegin a diolchir iddynt am eunhaelioni.

Erys y Parti Calan yn hir yng nghôf y plant, oherwydd i gadw cwmni iddynt ac i rannu anrhegion daeth Sandra o C'mon Midffild. Wedi llond plât o ddanteithion sawrus a melys a ddarparwyd gan 'Gyfeillion Ysgol Tan-y-Coed', mwynhaodd y plant fideo o C'mon Midffild ac yna anrheg a chlamp o gusan gan Sandra. Ffanciwi, Sandra, am bnawn Top-tip.

YSGOI SUL BOSRA: Ar fore stormus a gwyntog Sul Rhagfyr 24, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant, 'Hwn yw fy Mrenin i'. Fe ymlwybrodd pob bugail, cyrhaeddodd y tri gŵr doeth a llwyddodd Mair a Joseff i gyrraedd y stabl ar y fath dywydd! Roedd Mair druan wedi llwyr flino a swatiodd yn ei chadair, tra gofalai Joseff yn dynr amdani!

Cymerwyd rhan gan yr athrawon Mrs Eluned Jones, Mrs Bronwen Jones a Mrs Ann Ifans. Cyflwynwyd yr eitemau gan Mrs Elizabeth Jones. Diolchir i bawb am eu gwaith.

YSGOLION SUL: Ar y cyd, mwynhaodd aelodau Ysgol Sul Santes Helen a Chapel Bosra, Barti Nadolig yn Neuadd yr Eglwys, bnawn Gwener, Rhagfyr 23. Fe ddaeth y gŵr ei hun, Sion Corn, i'w

gweld a rhoi oren, afal ac arian i bob aelod. Cyflwynodd Hefina anrheg i Sion Corn am ei haelioni.

Diolchir i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at lwyddiant y parti.

PWYLLGOR NEUADD: Cynhaliwyd Noson Wasael, Nos Iau Rhagfyr 14 yn yr Ysgol, gyda Mrs Nansi Jones, Meillionydd yn arwain. Mwynhawyd eitemau o garolau gan y plant. Cafodd pawb bwnsh poeth a mins pei. Enillwyd y raffl oedd Gwenda Jones, Iris Williams a Siân Davies.

Enillwyd Clwb Cant Tachwedd oedd Brenda Richardson, Judith Harding, a Miss N. C. Williams. Enillwyd Clwb Cant Rhagfyr oedd Delyth Williams, Leslie Larsen, ac Anwen Huws, Carmel. Adnewyddir yr aelodaeth y mis hwn, Ionawr, £6 y flwyddyn neu 50c y mis. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Gweithgaredd Ionawr fydd noson Santes Dwynwen gydag Arwel Jones yn neuadd yr Eglwys, nos Iau Ionawr 25. Gobeithir cynnal Noson Gymdeithasol i'r Pentref ddiwedd mis Mawrth.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Gwyneth Jones, wedi colli'i brawd; Mr Selwyn Griffith, ar gollu modryb, ac ag Ann a Dave Paterson a'r teulu o golli nai i Dave o'r Alban.

YR URDD, ADRAN BENTREF: Dyma restr o weithgareddau'r tymor: **Ionawr 9:** Cwis yng ngofal Nant Roberts. **Ionawr 16:** Dawnsio Gwerin, gwaith llaw ac adrodd yng ngofal Judith Harding, Mary Elliott a Nansi Jones. **Ionawr 23:** Noson Santes Dwynwen yng ngofal Ann Ifans. **Ionawr 30:** Noson yng ngofal Duncan Brown. **Chwefror 6:** Gemau. Bydd y cyfarfod nesaf wedyn ar **Chwefror 20**, ar ôl Hanner Tymor.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD NANTLLE AC ARFON: Bwriedir

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

**FFÔN:
LLANBERIS 871470**

Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pys-gotwyr, **GWESTY CASTELL CIDWM** ar lan Llyn Cwellyn. Coginio Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

gwerthu Raffl Fawr er budd ein hapêl o £1,500 at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Nantlle ac Arfon. Bydd y llyfrau ar werth am 50c y llyfr gan aelodau'r Pwyllgor, gyda gwobrau gwerthfawr. Diolchir i chwi am eich cydweithrediad.

EGLWYS SANTES HELEN: Cynhaliwyd gwasanaeth Cristingl yn yr Eglwys brynhawn Sul, Ionawr 7. Daeth cynulleidfada dda ynghyd a braf oedd gweld yr enwadau yn ymuno i ddathlu gŵyl y Goleuni. Dymuna'r Parch Tegid Roberts ddiolch i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd i wneud yr achlysur hapus hwn yn un cofiadwy.


Edrychwn ymlaen fel Eglwys at y Gwasanaeth Bedydd Esgob (Conffyrmasiwn) a gynhelir am 10 o'r gloch, ddydd Sul, Chwefror 11,



Cafodd Sandra Picton saib o warchod rapscaliwns Bryn Coch dros wyliau'r Calan. Dyma hi yn mwylhau parti yng nghwmni plant ysgol, Tan-y-Coed.

Am bob math o
WYDR wedi'i
**DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.**
cysylltwch â

**Barrys
GLASS**



Camalot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

**GWILYM H.
WILLIAMS**

**BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL**

Ffôn
Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

THE BIKE MAN



**Birmingham House,
Stryd Goodman
LLANBERIS**

- ★ Beics newydd a brisiau disownt
- ★ Trwsio beics
- ★ Beics Ail Law
- ★ Rhannau sbâr
- ★ Llogi Beiciau Mynydd

Beth am ddysgu
dreifio gydag

**YSGOL YRRU
BETHEL**

Cysylltwch â
Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009

GWYL DDI-NIWCLEAR YN DATHLU LLWYDDIANT A GOBAITH

Dethlir llwyddiant ymgyrch PAWB a'r gobeithion am ddiarfogi yn Ewrop yng Ngŵyl Cymru Ddi-niwcLEAR ym Mangor y mis hwn (Chwefror)

Bydd yr ŵyl yn ddiwrnod i'w gofio i'r holl deulu - gyda meithrinfa ar gyfer babanod, gŵyl arbennig i'r plant, a cherddoriaeth, barddoniaeth, trafodaethau ac arddangosfa i'r oedolion. Mae'r trefnwyr yn addo'r cyfanfwd gorau yng ngogledd Cymru!

Cynhelir yr ŵyl yn Safle'r Fenai, y Coleg Normal, ar y ffordd o Fangor i Gaergybi, a bydd yn para o 11.30 am tan 5 pm. ddydd Sadwrn, Chwefror 24. Y pris mynediad fydd £1.50 neu 75c (digyflog) gyda phlant yn cael mynd i mewn yn rhad ac am ddim.

Ymhlith y perfformwyr gwâdd bydd y gantores brotest Maria Tolly o Loegr, The Peacemakers o Lannau Mersi, Bob Delyn o Gymru a'r band Gwyddelig Giro City. Ddylai neb golli perfformiad Ian Saville, y 'Consuriwr Sosialaidd'!

Ymhlith y siaradwyr gwadd mae Meg Beresford, ysgrifennydd cyffredinol yr Ymgyrch dros Ddiarfogi NiwcLEAR, a fydd hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaeth ar yr amgylchedd a datblygiad. Pynciau eraill i'r rheini â blas ar siarad fydd: Cymru yn y 'Cartref Ewropeaidd Cyffredin'; Môr Celtaidd Di-niwcLEAR? a dyfodol CND Cymru yn y 1990au.

Bydd beirdd Cymraeg a Saesneg yn darllen eu gwaith mewn sesiwn

wedi ei threfnu gan Steve Eaves. Bydd y gwneuthurwr printiau bydenwog Paul Peter Piech - sydd yn byw yn ne Cymru - yn arddangos detholiad o'i bosteri ar heddwch a datblygiad.

Bydd gan amrywiaeth eang o fudiadau o bob rhan o ogledd Cymru stondinau yn yr ŵyl yn cynnig gwybodaeth am eu gweithgareddau a nwyddau ar werth.

Gellwch brynu rhaglen i sicrhau mynediad oddi wrth y Tŷ gwydr, 10 Trevelyan Terrace, Bangor (£1.50 neu 75c yr un). danfonwch amlen fawr wedi ei stampio a'i chyfeirio.

Am wybodaeth bellach, ffoniwch CND Cymru ar (0766) 831356, os gwelwch yn dda.

Galw Crefftwyr ac Artistiaid

(Parhad o'r dudalen flaen)

ysgolion cynradd y cylch, ac wythnos (28 Mai-2 Mehefin) ym Mhafiliwn Celf a Chefft Eisteddfod yr Urdd, eto yn cynnal gweithdai i'r ifanc.

Y GYDNABYDDIAETH

(a) y boddhad o fod wedi cyfrannu i Barc cerfluniau Glynllifon - parc unigryw sy'n dathlu treftadaeth lenyddol trwy gyfrwng y gweledol.

(b) nid oes ffi wedi ei phennu eto ond mae'n bur iscr na fyddai'n llai na £500 a chostau.

AM DRAFOD NEU AM DDANGOS DIDDORDEB?

Mae croeso i artistiaid a chrefftwyr drafod y cynllun ymhellach ag unrhyw un o'r canlynol:

Ms Delyth Prys, 2 Caeau Gleision, Rhiwlas, Bangor (Ffôn: Bangor 351289); Dr Gwyn Pritchard, Hendre, Bedd Gwenan, Llandwrog, Caernarfon (Ffôn: Llanwnda 831022 neu Y Coleg Normal, Bangor, 370171); J. Clifford Jones, Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru, 10 Wellfield House, Bangor (Ffôn: Bangor 353248)

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

CYFARFOD MIS CHWEFROR LLANBERIS

EI HANES, EI PHOBL A'I PHETHAU gyda panel o HANESWYR LLEOL

Nos Fercher, Chwefror 21 am 7.00

Gwybodaeth: Gwynfor Roberts, Ffôn 871002



CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG YN GALW AM DDEDDF EIDDO

Yn y rhaglen deledu 'Week In, Week Out' ar Ionawr 9, cyhoeddwyd canlyniad arolwg gan yr Athro John Aitchison yn dangos y bydd y rhan fwyaf o gymunedau Cymraeg presennol Cymru â llai na 75% o'u poblogaeth yn medru Cymraeg erbyn y flwyddyn 2010, a hynny yn bennaf oherwydd y mewnlifiad.

Does dim byd yn anochel yn y duedd hon: does dim RHAID i hyn ddigwydd. Cael eu llofruddio mae cymunedau Cymru, nid marw'n naturiol. MAE yna ffordd o'u hachub - ennill DEDDF EIDDO i Gymru, fydd yn rhoi rheolaeth i'r gymuned dros y farchnad eiddo, a thrwy hynny yn sicrhau tai i bobl leol ac yn rheoli'r mewnlifiad.

Mae dyfodol ein hiaith a'n cymunedau yn dibynnu i raddau ar benderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol. Mae Cyngor Aberconwy, er enghraifft, newydd roi caniatâd ar gyfer marina a 200 o dai yng Nghonwy, fydd yn ergyd arall i Gymreictod yr ardal. Ar y llaw arall, fe benderfynodd Cyngor Ceredigion y llynedd i ofyn i'r Swyddfa Gymreig am £5 miliwn er mwyn prynu tai a'u gosod i bobl leol - cam a fyddai'n gymorth i arbed rhai cymunedau Cymraeg.

Ond all y Cyngorau ddim troi'r llanw yn ôl heb gael rheolaeth ar y FARCHNAD eiddo. Mae'r dyfodol felly yn eich dwylo CHI. Mae'r dewis yn un syml - derbyn y sefyllfa, suddo i anobaith, neu gefnogi'r ymgyrch dros DDEDDF EIDDO. Uchelgeisiol efallai, ond o gael pawb sy'n poeni am ddyfodol y Gymraeg a chymunedau Cymru i uno mewn ymgyrch genedlaethol ddi-drais, gallwn greu pwysau na all yr un llywodraeth na phlaid eu hanwybyddu.

Am fanylion pellach, cysylltwch â

Chymdeithas yr Iaith Gymraeg, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth (ffôn 0970 624501)

BETH YW DEDDF EIDDO?

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi llunio polisi cynhwysfawr i ddatrys y broblem tai a mudo, drwy gael DEDDF EIDDO GYFAN i sicrhau RHEOLAETH GYMUNEDOL ar y FARCHNAD EIDDO yng Nghymru.

Prif elfennau'r Ddeddf fydd:

- * sefydlogi prisiau tai ac eiddo ar lefel y gall pobl leol eu fforddio (h.y. lefel y 'farchnad leol')
- * sefydlu cynllun rhanberchnogaeth i helpu prynwyr-trocynaf lleol i mewn i'r farchnad wrth i brisiau sefydlogi.
- * rhoi blaenoriaeth yn y farchnad eiddo i bobl leol, drwy system bwyntiau newydd.
- * sicrhau y bydd digon o dai ac eiddo ar rent yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion lleol, yn ogystal â sicrhau dewis o ddeiliadaeth ym mhob cymuned.
- * sefydlu angen lleol ac effaith ar y gymuned a'r amgylchfyd, fel meini prawf sylfaenol ar gyfer rhoi caniatâd cynllunio.
- * cyngorau'n gorfod ail ystyried caniatâd cynllunio sy'n bod eisoes yn ôl yr un meini prawf
- * rhoi swyddogaeth strategol i'r cyngorau dosbarth fydd yn gorfod llunio a gweithredu strategaeth seiliedig ar anghenion lleol.

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 552

Am waith PEINTIO, ADDURNO a mân atgyweirio oddi mewn neu tu allan am bris rhesymol cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

Bistro

43-45 STRYD

FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 871278



CURIAD CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd

Y Bistro Bach

Y MAES

CAERNARFON

Ffôn: 673075



CURIAD CALON CYMRU

GWYLIAU PASG YR YSGOLION SUL



YS GWN I?

Pan ddiffydd yr haul
A phan fodda'r lloer,
A'n Daear grintachlyd
Yn garreg oer;
A fydd rhywun ys gwn i
Ar Fenws neu Mars
Yn dreifio Rolls Royce
Ac yn smocio Sigars?

Pan fydd carchar o rew
Yn cloi pob glyn,
A'n planed fel mynwent
Dan amdo gwyn,
A fydd rhywrai ys gwn i
Ar Fenws neu Mars,
Yn poeni am hynt
A helynt eu siars?

Pan gleddir pob byncar
Mewn oergell o fyd,
A'n Daear wenwynig
Yn llonydd a mud;
Fydd 'na drafod y ddrama
Ar Fenws neu Mars
Sef 'Trasiedi'r Ddaear'
A droes yn ffars?

SELWYN GRIFFITH

Gyda diolch i bobl Brynrefall
am blygu'r rhifyn hwn o'r Eco

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisïau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

Mae gwrsyll arbennig wedi cael
ei drefnu yn Llangrannog yn
ystod gwyliau'r Pasg eleni i blant
Ysgolion Sul Cymru a'u ffrindiau.

Mae'r gwrsyloedd yn cael eu
cynnal dan nawdd y Cyngor
Ysgolion Sul: Gwrsyll 1: Ebrill
9 - Ebrill 13. Gwrsyll 2: Ebrill
16 - Ebrill 20.

Bydd holl atyniadau arferol
Llangrannog ar gael, megis
merlota, beicio BMX,
chwaraeon, disco, llethr sgio - a
llawer mwy.

Yn ogystal, bydd cyfle yn ystod
y boreau i ddysgu am Iesu, a
hynny mewn ffordd ddiddorol a
byw.

Mae bws wedi ei drefnu i
deithio i lawr o'r gogledd. Cost
yr wythnos yw £55.

Am fanylion pellach
cysylltwch â: Y Parch Aled
Davies, Swyddog Datblygu,
Cyngor Ysgolion Sul, Ysgol
Addysg CPGC, Ffordd Deiniol,
Bangor. Ffôn 351151 (Est. 2947)

DRAENOG

Deall fod cymeriad yn un o
bentrefi'r fro yn gybyd o bedigri -
dyn llawchwith yn cadw'i arian yn
ei boced dde. Syndod o'r mwyaf
i'w gymdogion oedd gweld cwmni
gwydro-dwbl yn ail-osod ffenestri
yr holl dŷ. Bu cryn ddyfalu pam yr
holl wario - afrad yn ôl safonau'r
cybydd - ond daeth yr eglurhad:
Pwrpas y gwydro-dwbl oedd i atal
y plant rhag clywed y fan eis-crîm!

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Sylwch ar ein horiau
agor hwylus:

Sul 9 - 12.30
Llun - Gwener 7.30 am - 6 pm
Sadwrn 8 am - 8 pm

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

GŴYL FFILM A THELEDU Y GWLEDYDD CELTAIDD

Enwau'r 8 rhaglen i gyrraedd y brig o blith yr 89 i gystadlu
yn YrŴyl Ffilm a Theledu yn y Gwledydd Celtaidd fydd yn
cael ei chynnal yng NGweriniaeth yr Iwerddon fis Ebrill 1990
yw:

Don Garreg Ddu (HTV
Cymru/Wales); **Saith Cân yn
Syth** (HTV Cymru/Wales); **Un
Swig Arall** (HTV
Cymru/Wales); **Llais y
Bobl/Voice of the People - T.
E. Nicholas** (Teliesyn - i S4C a
Sianel 4 UK); **Heratland** (BBC
Cymru/Wales); **Ballroom**
(HTV Cymru/Wales); **Tom
Armstrong** (BBC
Cymru/Wales); **Adlais** (HTV
Cymru/Wales).

Yn ystod y ddeng mlynedd
ddiwethaf mae un rheithgor wedi
gwneud y dewis terfynol gan
wylïo pob rhaglen yn y
gystadleuaeth o'r holl gwledydd
Celtaidd yn ystod wythno yr Ŵyl
- gwaith sy'n faith a llafurus.
Eleni penderfynodd y Gweithgor
Rhyngwladol y dylai pob gwlad
rag-ddewis rhaglenni i'w cynnig
gan annog pob rheithgor, yn yr
Alban, Iwerddon, Llydaw a
Chymru i ddewis dim mwy na
chwech awr o gynnyrch mewn 4
categori: Drama, Ffuglen,
Adloniant a Rhaglenni Ieuencid.
Sylwedd yn hytrach na swm oedd
y nôd.

Dywedodd Owen Edwards,
Cadeirydd Cymdeithas Ffilm a

Theledu yn y Gwledydd
Celtaidd: 'Rwy'n ymhyfydu yn
y ffaith fod rheithgor Cymru, yn
eu dewis o raglenni i'w rhoi
gerbron y rheithgor trfynol yn yr
Ŵyl, wedi glynnu at lythyren ag
ysbryd rheolau newydd y
Gymdeithas, a thrwy hynny
bwysleisio haeddiant a
rhagoriaeth yn hytrach na swm y
rhaglenni. Arweiniodd hyn at
restr drawiadol o raglenni o
Gymru ym mhob categori yn y
ddwy iaith.

'Hyderaf y bydd y gwledydd
Celtaidd eraill yn cyflwyno
rhestrau yr un mor drawiadol fel
y bydd yr ennillwyr yn yr Ŵyl yn
wir gynrychioli'r gorau o raglenni
sy'n cael u cynhyrchu ar hyn o
bryd yn yr Alban, Iwerddon,
Cernyw, Llydaw a Chymru'.

Dangosir y rhaglenni terfynol
o bob gwlad i reithgor yr Ŵyl ar
Ebrill 2-6 1990, yn Gweedore,
Sir Donegal. Fe fydd BAFA
Cymru yn dangos yr holl
raglenni buddugol o Gymru ar
ddydd Sul, Chwefror 25 yng
Nghanolfan Celfyddydau
Chapter, Caerdydd. Fe fydd
croeso yno i bawb.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Am wasanaeth fframio
cyflawn - LLUNIAU
TYSTYSGRIFAU,
TAPESTRI:-

ELWYN PRITCHARD

Fframiwr Lluniau/
Telynau Gwynedd

**Parc Padarn
LLANBERIS**

870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch
cartref os dymunwch

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

DIOLCH: Dymuna Mrs Mary Ann Owen, Bodarfon, Stâd Tŷ Hen, ddiolch yn gynnes iawn am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty. Hoffai ddiolch yn arbennig i'w ffrindiau, cymdogion, meddygon y pentref a'r nyrsus am eu gofal caredig.

DIOLCH: Dymuna Gwenno a Selwyn, 19 Y Grugan, Groeslon, ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur geni eu mab bychan Iwan Fôn ar Ionawr 3, brawd bach i Siân Angharad. Llongyfarchiadau mawr iddynt, ac i Mr a Mrs Bill Owen, Noddfa, Stâd Tref Eilian, ar ddod yn daid a nain i'r bychan.

DYMUNA Mrs Lily Idris Jones, Bryn a'r teulu ddatgan eu diolch diffuant i bawb am eu caredigrwydd a'r cydymdeimlad a malygwyd iddynt yn eu profedigaeth.

Croesawn Mrs Jones adref ar ôl iddi dreulio cyfnod yn gwella yng nghartref preswyl Bryn Idan.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Nansi Thomas, Tan-y-Foel, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Dymuna Mr a Mrs Thomas, Tan-y-Foel ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli chwaer Mrs Thomas. Dymunant hefyd ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniasant tra bu Mr Thomas yn yr ysbyty. Mae Mr Thomas ar hyn o bryd yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon, ac anfonwn ein cofion cynhesaf ato.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Pritchard, Stad Tref Eilian; Mrs Anne Addison, Siop Tŷ Newydd; Mr Emlyn Davies, Bodwyn, a fu yn aros am gyfnod yng nghartref preswyl Bryn Idan. Croesawn Hefin, mab bychan Geoff a Liz Daniels, Stad Tŷ Hen, adref o'r ysbyty. Rwy'n siŵr fod Iwan yn falch o gael ei frawd bach adref.

CYDYMDEIMLWN yn fawr â Mrs Miles, Trefeddyg, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, ac â Gareth, Lisabeth a Gillian a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli eu tad.

Cydymdeimlwn yn fawr hefyd â Mr Robert ap Wyn Williams yn ei

brofedigaeth o golli ei fam. Ar yr un pryd, rydym yn ei longyfarch ar ei ddyweddiad â Miss Angharad Rhys o Gaernarfon, yn ystod gwyliau'r Nadolig.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Wendy a Gary Penclip ar enediggaeth merch fach, Cara Louise, ac i Mr a Mrs Geraint Griffith, Bro Waun ar ddod yn daid a nain i'r fechan.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Rhian Williams, Bro Waun, ar ei dyweddiad â Clive o Gaernarfon; ac i Mrs Spark, Tremnant, ar yr anrhydedd a ddaeth i'w mab yng nghyfraith yn derbyn C.B.E. yn anrhydeddau'r Frenhines.

Bu Aeron Jones, Glyn Ceris, a Karen Roberts, Sŵn y Gwynt, yn dathlu eu penblwydd yn ddeunaw oed; Mrs Southworth, Gwynant, yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed; Mrs Grace Griffith, Tanrallt, yn dathlu ei phenblwydd yn 91 oed. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Richard Owen, Bro Waun, ar dathlu eu priodas Ruddem yn ddiweddar; ac i Mr a Mrs J. Bradshaw, 'Castle View' ar dathlu eu priodas Aur yn ddiweddar.

YR URDD: Ail-gychwynodd cyfarfodydd yr Urdd nos Fercher, Ionawr 10, gyda Mrs Ann Elfryn yn sgwrsio gyda'r aelodau am gystadleuaeth gwaith llaw ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon. Mae'n argoeli y bydd paratoi brwd ymysg yr aelodau yn ystod yr wythnosau nesaf gyda Anti Ann Elfryn yn cadw llygaid ar y gwaith.

Nos Fercher, Ionawr 17 daeth Nia o Swyddfa'r Urdd i ddangos fideo o weithgareddau gwersylloedd Llangrannog a Glandyllon. Diolch iddi am roi ei hamser.

Mae amryw o aelodau'r Urdd yn brysur ymarfer ac yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Cylch yr Urdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefail ar Mawrth 3. Hwyl fawr ichi a'ch hyfforddwyr yn y gwaith. Os ydych am wybodaeth ynglŷn ag unrhyw gystadleuaeth, dowch at Anti Nan i ofyn.

AR Y TELEDU: Llongyfarchiadau i Beca Brown, Gwelfor, ar actio rhan Judith mor dda yn y gyfres 'Ydi Bywyd yn Boen' ar S4C. Tybed ydych chi wedi adnabod rhai eraill o'r pentref yn y gyfres?

CRONFA

WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr: 1, (£40) Mrs Parry Williams, Gwynfa; 2, (£25) Mr Iolo

CANOLFAN

Huws-Roberts, Bodrida; 3, (£10) Mr Neville Owen, Bryn Gwylan. Hefyd talwyd 2 wobr ychwanegol o £10 i Mr I. Cotton, Tŷ Hen a Mr P. N. Greasley, Minafon.

DR. ALWYN MILES (1909-1989)

Roedd maint y dyrfa a ymgasglodd yng Nghapel Croesywaun i dalu'r gymwynas olaf i'r diweddar Dr Alwyn Miles yn deyrnged i'w boblogrwydd - poblogrwydd a sylfaenwyd pan yn feddyg teulu yn y Waunfawr ac a ffynnodd ar sail ei bersonoliaeth hoffus.

Brodor o Bontrhydyfen oedd Dr Miles, a bu'n feddyg yn Ffestiniog am flwyddyn neu ddwy cyn sefydlu yn y Waunfawr - lle rhoddodd yn agos i 40 mlynedd o wasanaeth. Ar ôl ymddeol fel meddyg llawn amser cymerodd ran amlwg mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol yn lleol ac mewn cylch eangach. Etholwyd ef yn Llywydd Cymdeithas y Meddygon Cymreig yn 1988.

Roedd ei ddiddordebau, ar wahan i feddygaeth, yn amrywiol, gyda gwybodaeth eang mewn llawer maes, ac roedd yn hynod wybodus mewn materion gwleidyddol, cenedlaethol a rhyngwladol. Wedi ei fagu ar aelwyd sosialaidd Gymreig parhaodd ei ymlyniad wrth yr egwyddorion hynny, a'i bwyslais ar

hawl cynhenid yr unigolyn a'i genedl i chwarae teg yng nghydestun cyfrifoldeb i ddynolryw yn gyffredinol.

Yn gwmniwr diddan, a'i syniadau yn feddylgar, ac yn aml yn anghonfensiynol. Fe'i cofir am ei agosatrwydd cyfeillgar, ei ffraethineb a'i allu rhyfeddol i dawelu ofnau pobl pan yn ymwneud â hwy ar adegau dyryd ac argyfyngus yn eu bywydau.

Bu yn briod â Nansi am fwy na 50 mlynedd, ac mae ein cydymdeimlad â hi yn fawr, a chyda'i blant, Gareth, Lisabeth a Gillian.

Roedd Dr Miles yn falch o'i blant a'u teuluoedd, y tri theulu yn chwarae rhan amlwg ym mywyd Cymru. Buom yn ffodus fod Gillian wedi aros yng nghylch Eco'r Wyddfa, a chael manteisio yn lleol ar ei gwasanaeth hi a'i gŵr, y Cynghorydd Eurig Wyn.

Roedd Dr Miles yn un o gyfarwyddwyr Antur Waunfawr, ac yn ôl dymuniad y teulu, mae cyfraniadau er côf amdano yn mynd i gronfa'r Antur.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376



CYNGOR SIR

GWYNEDD



A FEDRWCH CHI HELPŲ?

1. Ydych chi'n byw o fewn ugain milltir i Gaernarfon?
2. Ydych chi'n Gymry Cymraeg?
3. Fyddai gennych chi ddiddordeb mewn helpu i fagu brawd a chwaer?

Mae'r brawd yn 3½ a'i chwaer yn saith. Maent yn blant bywiog a siaradus ond â mwy o broblemau na phlant eraill o'r un oed. Bydd eisiau llawer iawn o amynedd a chariad wrth helpu i ddisgyblu a magu'r plant yma dros gyfnod hir. Bydd yn ofynnol i'r plant gadw mewn cysylltiad â'u mam trwy gydol yr amser fyddant hefo chi. Os hoffech gael mwy o wybodaeth, mae croeso i chi ffonio:

Ann Owen

Cartref Bontnewydd

Cartref ac Uned Gofal Teulu - Y Bontnewydd,
Caernarfon, 2922

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

'AR Y TERAS'

gan y Gwalch

Yr oeddwn unwaith yn gweithio gyda chwmni o arwerthwyr yn y Gogledd, ac yr oedd eu tiriogaeth fasnachol yn ymestyn o Llyn i Gonwy, ac yn cofleidio holl Ynys Môn. Byddwn yn gwneud rhestrau o bethau byw a marw i fynd dan y morthwyl, yn paratoi datganiadau i werthwyr ac yn derbyn arian parod ar bob achlysur. Ddiwedd y flwyddyn byddwn yn mynd i'r ocsiynau ymadael.

Un noswyl Nadolig yr oeddwn wedi mynd i arwerthiant fel hyn ym mherfeddion Sir Fôn. Roedd Dic Moelfra, a oedd yn dyblu fel portar a drofar wedi dod i'm cyfarfod oddiar y bus yn y Borth, ac aeth â fi yn ei hen fan fregus i rhyw balasdy bychan, enw yr hwn rwy'n gyndyn o'i ddadlennu, petai ddim ond er mwyn tawelwch y rhai sy'n trigo ynddo erbyn hyn.

Roedd yna dipyn o waith i fynd drwyddo, ac yr oedd yr arwerthwr mor awyddus i ddehau, fel na cheffais gyfle i fynd drwy'r infentori i gyd. Ond wrth swlffa ym mhantri'r butler, gwnes ddarganfyddiad syfrdanol: Yng nghudd mewncwprdd bychan roedd yna flwch cyfan o wisgi heb ei gyffwrdd.

Diwrnod amrwd oedd o a'r gwyll yn cyrraedd yn gynnar. Y chandeliers oedd y pethau dwaetha i'w gwerthu, er mwyn i ni gael llewyrch i weld y cwsmeriaid. Ond yr oedd y diflasod yn cael ei liniaru beth i mi wrth feddwl am y blwch wisgi, ac ar ôl i'r gwerthu orphen, aeth yr arwerthwr i'w hynt, gan fy ngadael i ddellio hefo'r fasnach.

Naw o'r gloch y nos yr oeddwn yn dal i drin arian a gwneud biliau yn y morning room, a oedd erbyn hynny wedi ei gwaghaus o ran fwyaf o'i chynnwys. Roedd hi'n ymddangos nad oedd yna neb yn gofalu am y lle, ond yr oedd rhywun wedi bod yn ddigon meddylgar i gynneu tân, ar ba un yr oeddwn yn taflu coedyn yn awr ac yn y man. Roedd Dic wedi bod yn ddigon doeth i'w goleuo hi am y dafarn leol, ar ôl addo dod i fy nghludo i'r Borth yn ddiweddarach.

Ar ôl i'r cwsmer olaf ddiplannu, cauais y bag ar swm o rhyw bum mil o bunnau a mynd yn syth i bantri'r butler. Roedd y wisgi yno o hyd heb ei gyffwrdd, a phemderfynais y buasai yn eithaf peth i agor potel a chael cropar i adfer fy nerth a gwasgaru tyndra'r dydd. Canfyddais wydr ar ymyl sinc, ac ar ôl hanner ei lenwi, dychwelais i'r morning room.

Roedd hi'n dawel iawn tu mewn i'r tŷ, a dechreuais bendroni ynghylch ei hanes; yr holl ddramau rheini a chwareuwyd ym mywydau'r

rhaf a drigodd o fewn ei furiau. Ac erbyn hynny yr oeddwn yn hanner disgwyl Siôn Corn i lawr y simdde. Doedd y posibilrwydd fod yna fodau eraill yn nes i mi o lawer, ddim wedi taro yn fy mhen o gwbl. Ond yr oeddwn yn wybodol iawn fod Dic yn cymeryd ei amser.

I ladd ychydig funudau euthum allan ar y teras. Yr oedd hwnnw yn rhedeg hyd y tŷ ac yr oedd iddo ganllaw uchel. Yn ei ganol yr oedd yna risiau cerryg yn disgyn i'r ardd suddedig a'r fista y tu hwnt. Roedd y grisau yn cael eu gwarchod o bobtu gan ddau eryr carreg anferth.

Roedd hi wedi troi yn noson dawel farugog, ac yr oedd yna leuad dri-chwarter yn dringo tros y deri. Cerddais i ben draw'r teras, ac yna, wedi oedi funud, dychwelais yn araf. Wrth droi, sylwais fod yna rhywun yn sefyll yng nghysgo un o'r eryrod.

Fedrais i ddim llai na gwenu. Yr oedd y ffaith yn amheuthun, ond eto yn wir. Ymhob arwerthiant gwledig bron, byddai rhyw eneth leol yn llercian ar ôl, i'r pen, i geisio cael sylw'r clarcod. Wn i ddim beth â oeddent yn ei weld ynom ni feidrolion tlawd y ddaear; yn gweithio fel yr oeddem chwe niwrnod yr wythnos am bum swllt ar hugain a chostau teithio. Efallai am ein bod yn trin symiau mawr o arian - ysywaeth, rhai pobl eraill, a oedd yn ein trwytho a rhyw wawr o gefnogrwydd a disgwyliadau.

Doedd y ferch yma fodd bynnag, pan euthum yn ddigon agos ati i weld, ddim yn werin fun o bell ffordd - ddim yn y cyfnod hwnnw beth bynnag. Roedd ganddi wisg las laes amdani, ac yr oedd ganddi wallt llaes melyn symudliw, a hwnnw wedi ei drefnu yn llen ar un ochr fel ag i guddio un ochr i'w hwyneb yn gyfangwbl. Ddwedodd hi ddim o'i henw na chwaith gynyg ei llaw, ond canfyddais ei bod hi'n un hawdd siarad â hi a hynny yn Gymraeg, a does gen i ddim amgyffred am ba hyd, ond ar hyd yr adeg symudodd hi ddim cam o gysgod yr eryr.

Roedd yr oerni erbyn hyn yn ffyrnigo. Doedd ganddi ddim i orchuddio ei hysgwyddau noethion,

a gwahoddais hi i'r tŷ at fy mymryn tân, ond gwrthododd yn y modd dieithria; mi gofiais ei geiriau yn iawn. 'Allan yn y fan yma yr wyf yn perthyn,' meddai. Yna cofiais fod genyf yr union foddion i'w chynhesu.

'Fuasech chi'n hoffi dram o wisgi?' meddwn.

'Wrth fy modd,' meddai hithau.

Euthum yn fy ôl i'r tŷ i mofyn cropar reit dda iddi, ond pan ddychwelais ar y teras nid oedd sôn amdani. Cerddais wedyn ar ei hyd gan hanner disgwyl ei gweld yn dod i fyni'r grisau cerryg o'r ardd. Yn lle hynny euthum i lawr fy hun. Roedd yna darth oer yn cropian tuag ataf o'r fista. 'Ydych chi yna?' galwais. Ond chlywais i ddim ond cri dylluan o'r deri.

Arôl i mi ddychwelyd i'r morning room yr oeddwn yn ddyn dyryslyd, ac yfais ei wisgi hi, a chwaneg ar ben hynny. Pan gyrhaeddodd Dic o'r diwedd yr oeddem ein dau yn diridano. Ond doedd gan y plisman lleol ddim anadlydd diod yr adeg honno.

Ar ein taith gofynnodd Dic ei gwestiynau arferol.

'Wyt ti wedi darfod ers meityn?' Ac yn hyddysg â'r drefn. 'Gest ti gwmpeini?'

'Do,' meddwn, 'Ond ddaru hi ddim aros.'

'Hen dro. Sut un oedd hi?'

Disgrifiais yr eneth benfelen mewn manylder. Ar ôl i mi orphen, aeth Dic yn dawedog er fod ganddo bob amser ddigon i'w ddweud.

Ar ôl i ni gyrraedd y Borth canfyddais fod y moto dwaetha wedi

mynd, a mynnodd Dic fy nghludo trosodd i'r tir mawr, ond ychydig iawn â oedd ganddo i'w ddweud.

Pan oeddwn o'r diwedd yn ei adael, a'm llaw ar glicied y drws, gofynnais wedyn.

'Does gin ti ddim dirnad pwy oedd hi felly - yr hogan?'

Chwythodd Dic fwg sigaret yn erbyn y gwydr a rhythodd i'r troadau.

'Nid y chdi ydy'r cynta i'w gweld hi wyddost ti,' meddai.

'Pwy?'

'Jane Llwyd.'

'Lle mae hi'n byw felly?'

Trodd i edrych arnaf. 'Dydy hi ddim yn byw yn unman erbyn hyn.'

'Wyt ti'n meddwl deud...?'

'Mae hi wedi ei chladdu ers tua deng mlynedd.' Yna ychwanegodd mewn munud. 'Boxing Day oedd hi. Roedd yna barti yn y plas. Ar ôl cinio mi aethon allan i saethu. Roedd hi'n saethwr da, ond mae'n rhaid ei bod hi'n cario ei gwn yn afrosgo. Mi faglod beth bynnag a saethu hannar ei hwnab i ffwrdd.'

'Hannar - ei - hwnab!' sibrydiais.

'Mi gafodd y peth ei basio fel damwain wrth gwr,' meddai Dic wedyn. 'Ond yr oedd pawb yn gwybod y gwir. Roedd hi'n chwil gaib. Mi fyddai yn cario fflasg o wisgi hefo hi bob amsar. Andros o wanc i hogan ddeunaw oed.'

Wyddwn i ddim beth nesaf i'w ddweud, ond dwedodd Dic yn fy lle.

'Roeddwn i'n meddwl y basa yn llawn cystal i mi ddeud wrthaf ti. Fasat ti ddim ond yn moedro ynghylch y peth.'

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CWM RHYMNI

TOCYNNAU AR WERTH YN AWR

		Dosbarth		2il
		1af	Ddosbarth	
Cyfnod	Pafiliwn dydd a nos	£62.00	—	
	Pafiliwn dydd a drama'r nos	£40.00	—	
Dyddiol	Pafiliwn dydd			
	Dydd Sadwrn cyntaf	£3.00	—	
	Dydd Llun, Mercher a Gwener	£5.25	—	
	Dydd Mawrth, Iau, yr ail ddydd Sadwrn	£7.25	£6.00	
	Pafiliwn y nos			
	Bob nos, gan gynnwys nos Sul, Awst 5ed	£5.00	£4.00	
	Drama gyda'r nos			
	O nos Lun i nos Sadwrn	£4.50	£3.50	

LLETY

Os am gael llety dros yr wythnos neu am ychydig ddiwrnodau, ysgrifennwch at Mrs Joyce Jones, Ysgrifenyddes Llety, Swyddfa'r Eisteddfod, 41 Heol Hanbury, Bargoed, Morgannwg Ganol, CF1 8SQ Rhif ffôn 0443 821677.

CARAFANAU

Os yr ydych am sicrhau safle ar y maes carafanau, danfonwch am ffurflen i Swyddfa'r Eisteddfod.

STIWARDIO

Os yr ydych yn awyddus i stiwardio yn yr Eisteddfod - yn y Pafiliwn, yn y Pafiliynau ar y Maes, wrth yr Orsedd neu yn y rhagbrofion - danfonwch i Swyddfa'r Eisteddfod am ffurflen stiwardio.


PARTI'R CLYCHAU'R GRUG

Mae'r parti merched uchod yn chwilio am aelodau newydd. Os oes unrhyw un â diddordeb mewn ymaelodi, cysylltwch â'r canlynol am fwy o fanylion:

Mrs Linda Jones, Pant Mwyn, Llanrug
(Ffôn: Caernarfon 3838)

Mrs Glenys Griffiths, Llwyn Eithin, Bethel
(Felinheli 670102).

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

Dyddiadur y Mis

Chwefror

2. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band 8.00.

LLANBERIS: Te yr Henoed.

LLANBERIS A'R ARDAL: Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd.

5. **LLun:** DEINIOLEN: Sefydliad y Merched.

6. **Mawrth:** DINORWIG: Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan, 7.00

PENISARWAUN: Yr Urdd, Gemau.

DEINIOLEN: Undeb y Mamau, 7.00

7. **Mercher:** LLANRUG: Plaid Cymru yn yr Ysgol Gynradd, 7.30. Noson yng nghwmni Elfed Roberts, Trefnydd Rhanbarth Arfon.

8. **Iau:** LLANRUG: Undeb y Mamau yn Hafan Elan.

9. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00

11. **Sul:** PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen, Gwasanaeth Bedydd Esgob, 10.00.

12. **LLun:** DEINIOLEN: Cyngor Eglwys. Oedfa yn Festri Disgwylfa, 7.00

WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol - Noson o Frethyn Cartref. DINORWIG: Ymarfer Sgetsus yn y Ganolfan, 7.00

13. **Mawrth:** LLANRUG: Merched y Wawr - Cwis gan Mr Huw Jones, Glanrhyd.

14. **Mercher:** CWMYGLO: Gyrfa Chwist yn yr Ysgol Gymuned, 7.15.

15. **Iau:** LLANRUG: Noson Goffi yn Ystafell y Band, 7.00

16. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn

Ystafell y Band, 8.00

LLANBERIS: Te yr Henoed.

19. **LLun:** DEINIOLEN: Merched y Wawr - Noson dan ofal Gwyn Parri. BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched.

20. **Mawrth:** PENISARWAUN: yr Urdd.

PONTRHYTHALLT: Cymdeithas Lenyddol Undebol - Sgwrs gan Mrs Ann Evans, Penisarwaun.

23. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

28. **Mercher:** CWMYGLO: Gyrfa Chwist yn yr Ysgol Gymuned, 7.15.

Mawrth

1. **Iau, Dydd Gŵyl Dewi:** LLANRUG A LLANBERIS: Plaid Cymru, dathlu Gŵyl Dewi yn y Fictoria, Llanberis, 7.00.

2. **Gwener:** BETHEL: Yr Urdd, Noson Goffi.

3. **Sadwrn:** YR ARDAL: Eisteddfod Cylch yr Urdd, Ysgol Brynrefail.



**PEIDIWCH A GORI
AR STORI!
RHOWCH HI I'CH
GOHEBYDD LLEOL**

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman
LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa
wythnosol. Dewch i weld ein
amrywiaeth eang o fwydydd
**Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta,
Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych,
Grawnfwydydd etc.**

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL
EICH ANGEN
AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

GLADRAGS LLANBERIS

PAM MYND I
GAERNARFON,
BANGOR AC
YMHELLACH
HEFO DILLAD I
BOB OED A
MAINT YMA'N
LLANBERIS AM
BRISIAU BAR-
GEN ?

Be ga i'n bresant?

Dewch yma am
* Dillad Merched
* Dillad Dynion
* Dillad Plant
* Dillad Gwlad
* Mohair ac Aran
* Dillad Lledr
* Dillad Isa
* 'Accessories' fel bagiau
* a llawer mwy

**CYNNIG
ARBENNIG**



Yn rhatach os
dangoswch yr
hysbyseb hon

AR AGOR LLUN-SADWRN 9-5.30 SUL 24 RHAGFYR 9-3.30

CHWYLBRO!



- *Gweithgaredd difyr a chyffrous...
- *Ar gyfer clybiau a chymdeithasau sy'n cyfarfod yn Gymraeg...
- *Cyfle i lanw noson i'ch grŵp neu'ch cymdeithas chi...
- *Ar gael trwy Gymru...
- *Di-Dâl... Am wybod mwy?

Llenwch y ffurflen isod a'i danfon at:
Menter a Busnes,
Parc Gwyddoniaeth Aberystwyth,
Dyfed SY23 3AH

Cofiwch wyllo Rhapien
Hywel Gwynfryn ar SAC
Nos Wener, Chwefror 23
1990, 8.55 p.m.

Menter a Busnes

CHWYLBRO!

Enw: _____

Cymdeithas: _____

Cyfeiriad: _____

Rhif Ffôn: _____

Cefnogwyd gan: Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig

**AM EICH HOLL ANGHENION YSWIRIANT - Y Tŷ A'I GYNNWYS
CAR - BUSNES - SIOP - CYFRIFOLDEBAU CYHOEDDUS A.Y.Y.B.
Cysylltwch â Robin Jones, F.Inst.I.C. Ymgynghorwr Yswiriant Annibynnol**

ROBIN JONES A'I GWMNI

Llys Alaw, 18 Stâd Eryri, Bethel. Ffôn: 93 670140

Hefyd yn Stryd y Bont, Llanrwst, Gwynedd LL24 OET. (0492) 641154 (0492) 641840

★ Brocer Credyd Trwyddedig.

★ Cymrawd o Institiwt Ymgynghorwyr Yswiriant.

★ Gwasanaeth yn eich cartref drwy drefniant.

Telerau arbennig am yswiriant yn cynnwys
eich tŷ, gyda gostyngiad ychwanegol yn y
pris, o hyn tan ddiwedd mis Mawrth 1990.

ASiantaeth Swyddogol Gyda Holl Brif Gwmniau Yswiriant ac yn Lloyds. SEFYDLWYD 1983

CHWARAEON

YDI, MAE'R PETH YN BOSIB!

Fe greodd y cwis ar dudalen ôl y rhifyn Nadolig beth diddordeb ymysg rhai ohonnoch, a gwn fod peth trafod wedi bod ar rhai o'r cwestiynau, yn enwedig felly yr un am y chwaraewr pêldroed yn sgorio ddwy waith heb i neb arall gyffwrdd yn y bêl.

Cwestiwn naw oedd o, ac y mae'r peth yn bosib, er y byddai'n anhebyg iawn o ddigwydd.

Mae'r blaenwr yn sgorio, a chyn y gellir ail ddechrau'r chwarae, mae'r dyfarnwr yn arwyddo ei bod yn hanner amser. Yr un blaenwr sy'n dechrau'r ail hanner, ac am rhyw reswm mae'nicio'r bêl tuag at gôl y gwrthwynebwyr ac yn rhedeg ar ei hôl. Yn y blwch cosbi fe gaiff ei faglu gan un o'r cefnwyr, ac ef sydd yn sgorio o'r sbotun. Wel, mae'n bosib yn tydi?

Yr atebion eraill yw: Pencampwriaeth Ewrop (**European Championship**) a elwid yn Nations Cup hyd at 1966. **Alan Evans** ydi Ysgrifennydd Cymdeithas Pêl Droed Cymru ac ar **Penydaran Park** mae Merthyr yn chwarae pêldroed. I **Abertawe** y mae Arthur Emyr yn chwarae Rygbi, a'r gêm sy'n dechrau â'r ugeinfed lythyren yn yr wyddor Saesneg ydi **Golff** wrth gwrs (T). **Joci** enwog ydi Hywel Davies, a **Cwmni Sain** sy'n noddi'r gynghrair bêldroed leol. **Richard Hadlee** sydd wedi cymeryd 396 o wicedi mewn gemau prawf, a **Bryn Davies**, Ysgrifennydd Clwc PD Llanrug oedd y babi bach del hwnnw. Yn **Barcelona** y cynhelir y Gemau Olympaidd yn '92, a'r gôlgeidwad enwog hwnnw oedd y **Dr R. H. Mills Roberts**. **Doug Mountjoy** oedd y chwaraewr snwcer a **Steve Jones** y rhedwr marathon. 'Does dim cofnod gen i am enwau'r rhai yn yr hen lun o dîm pêldroed Llanrug 1948, ac ni chefais yr ateb gan neb.

Cwestiwn bach arall i orffen:

Eglurwch sut mae'n bosib cael sgôr o 31-0 mewn snwcer, a phob pêl wedi ei photio.

RHEDEG TRAWS GWLAD

Bu rhedwyr o Ysgol Brynrefail yn cystadlu yn nhreialon Ysgolion Arfon ar gaeau Treborth ym Mangor ar Ionawr 26ain, ac fe brofwyd peth llwyddiant ganddynt.

Bu Caitlin Wroe yn fuddugol yn y ras i enethod blwyddyn 1, a Carys Reynolds yn 12fed. Nawfed a degfed oedd safle Paul Jones a Cenyw Jones yn y ras i fechgyn y flwyddyn gyntaf. Carolyn Jones ddaeth yn ail yn erbyn genethod blwyddyn 2 a 3, ac ni fu'n syndod i neb fod ei brawd, Colin, wedi ennill yn erbyn bechgyn blwyddyn 4 a 5 y Sir.

Yn dilyn y llwyddiant a ddaeth i'w ran y llynedd, eisoes yn y flwyddyn newydd y mae Colin yn bencampwr Siroedd Cymru, yn bencampwr Cynghrair Gogledd Cymru ac yn bencampwr Cynghrair Deeside, oll yn y dosbarth dan 17 oed. Ar yr ugeinfed o Ionawr fe ddaeth yn seithfed yng nghystadleuaeth Cymdeithas Traws Gwlad Cymru a gynhaliwyd yn Chepstow yn erbyn tîm dan 20 oed y lluoedd arfog.

Ar y gweill y mae pencampwriaethau siroedd Cymru a Lloegr ddiwedd Ionawr yn Crosby, pencampwriaeth Cymru i rai dan 17 oed yn y Bari ym mis Chwefror;

Ysgolion Cymru dan 16 oed yn y Drenewydd ar y 3ydd o Fawrth ac ar Ebrill 7fed pencampwriaeth Ysgolion Prydain dan 16 oed yn Coventry.

Pob lwc iddo.



PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Ar y 14eg o Ragfyr fe gynhaliwyd Pwyllgor Blynnyddol y Gymdeithas yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon. Roedd nifer dda o'r aelodau yn bresennol ac fe basiwyd nifer o benderfyniadau sydd yn bwysig i'w nodi. Y cyntaf wrth gwrs yw na fydd newid yn y tâl ymaelodi, sef £40 i drigolion lleol, ac mae'n bwysig i'r arian ddod i law cyn Mawrth laf, hyn yn cynnwys yr aelodau presennol ac unrhyw berson lleol arall sydd yn dymuno ymaelodi. Bydd y tâl ar ôl hynny yn codi i £80.

Mae graddfa uwch i unrhyw un sydd yn byw oddi allan i ardal Gwryfai ac fe gyfyngir nifer yr aelodau hyn i 75.

Yr ydym yn ffyddiog y bydd caniatâd cynllunio wedi ei dderbyn yn weddol fuan er mwyn cael dechrau ar y gwaith o adeiladu deorfa ar safle hen felin y Faenol yng Nghrawia. Mae'r cynlluniau eisoes wedi bod yn fuddugol yng nghystadleuaeth 'Benson & Hedges', sef y 'Conservation Trust Award'. Gobeithio y gwnaiff yr aelodau roi eu hysgwyddau dan y baich o godi'r adeilad, trwy gyfrannu ychydig o oriau at y gwaith. Nid oes dwy waith na wnaiff y ddeorfa helpu i godi safon y pysgota yn aruthrol.

Ar ôl cael y rhan fwyaf o'r ffeithiau am dymor '89 at eu gilydd, gwelwyd fod tua 150 o eogiaid wedi eu dal ar y dair afon, a hynny yn weddol o ystyried y tywydd sych. Oddeutu 300 o sewin a ddaliwyd, hyn i'w gymharu a dros 3,000 fel arfer. Roedd pryder mawr am hyn, ond codais fy nghalon wrth gerdded y glannau trwy fisoedd Tachwedd a Rhagfyr wrth weld heidiau yn claddu, a da yw gweld fod rhai yn dechrau poblogi ardaloedd Nant Peris drachefn, maent wedi cymeryd tipyn o amser i addasu i'r twnel newydd sy'n cario yr afon heibio i Peris.

Cynhelir Bwffe Blynnyddol y Gymdeithas yng Nglan Gwna, am 7 o'r gloch, nos Sadwrn, 3 Chwefror. Tocynnau £9.

CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL

PÊLDROED

Bu pedwar o fechgyn y drydedd flwyddyn yn nhreialon tîm Ysgolion Gwynedd ar y 18fed o Ionawr.

Deallir i Gavin Allen o Ddeiniolen, Sion Hughes (Deiniolen), Seimon Murphy (Llanrug) a Raphael Ginsberg o Fethel i gyd gael gêm dda, ac y mae Gavin, Seimon a Raphael wedi ennill eu ffordd i'r treial terfynol a gynhelir ym Mangor ar Chwefror laf.

Mae Gavin hefyd, ynghyd â Ian Hughes o'r bedwaredd flwyddyn yn aelod o dîm dan 15 oed Ysgolion Arfon, ac ar yr 20fed o'r mis bu'r ddau yn chwarae yn erbyn Ysgolion Wrexham ar gae Caernarfon. Colli fu eu hanes o 3 gôl i 2, ac fe chwaraeir yr ail gymal yn Wrexham ar y degfed o Chwefror.

Bu y gemau yn erbyn Ysgol Syr Huw Owen ar y 24ain o'r mis, ac er i hogia'r ail flwyddyn ennill yn erbyn y Cofis y tymor diwethaf, hefo dau neu dri o'u chwaraewyr yn methu a chwarae, colli o 6 gôl i 1 fu eu hanes.

Hyd at eu gêm hwy, 'roedd tîm y flwyddyn gyntaf wedi ennill pob gêm ond un, sef 3-2 mewn gêm agos yn erbyn Botwnnog. Fe chwaraeodd hogia Syr Huw yn ardderchog, ac mae blwyddyn gyntaf Ysgol Brynrefail yn parhau mewn sioc o golli o 13 gôl i 1 (ie, un-deg-tri)

PÊL-RWYD

Canlyniadau timau pêlwyd yr ysgol yn erbyn Ysgol Syr Huw Owen: Blwyddyn 1: colli 9-5; Blwyddyn 2: colli 7-2.

TIPYN O HWYL!

Llun ydi hwn a dynwyd ar lan y Seiont yn Stablau. Yn sefyll ar y lan y mae Tony Elliott a Doug Jones o Benisarwaun, a'r gŵr sydd yn y dŵr ydi, ia, Arwel Hogia'r Wyddfa!! A beth oedd o'n i wneud yn nyfroedd oer y Seiont a hithau'n tynnu am y gaeaf? medde chi. Wel, chwarae hefo'i chwiaid wrth gwrs.

Mae o'n trio egluro mai cychwyn ras hwyaid i godi arian tuag at Neuadd i'r pentre oedd o, ond mae'n well gen i goelio i fod o wedi casglu cymaint o'r hwyaid bach plastig melyn fel nad oes digon o le iddo chwarae hefo nhw i gyd yn y bath bellach!



Dwy stori fach a chartwn a gyhoeddwyd yn rhifyn Ionawr o'r Eco, chwe mlynedd yn ôl.

DAMWAIN YN LLANRUG

Mewn gêm galed rhwng Llanrug a Llanberis fe anafwyd un o chwaraewyr Llanrug, a thra 'roedd y doctor dŵr yn penlinio wrth ei ochr fe glywyd un o gefnogwyr Llanberis yn dweud wrth ei fêd: 'Gobeithio nad ydi o wedi brifo' chydig, nde Wil.'

SAIS YN NEINIOLLEN

Sais rhonc yn dyfarnu mewn gêm gwpan. 'Roedd un o chwaraewyr Deiniolen wedi bod yn taclo'n uchel drwy'r gêm, ac yn y diwedd 'doedd gan y dyfarnwr ddim dewis ond ei anfon o'r maes. Wrth gerdded heibio iddo cafodd y Sais lond ceg o regfeydd nas deallai, ac meddai wrth y chwaraewr: 'It's no good — too late now to apologize.'



Fe ddylwn i fod wedi dy rybuddio di — fedar y wraig ddim diodda i neb siarad am bêl-droed.